tafod elái

HYDREF 2024

Rhif 391

Pris £1

Dathlu 50 Mlynedd Côr Godre'r Garth

Elir Owen-Griffiths, Gareth Williams, Wil Morus Jones, Steffan Huw Watkins a Branwen Evans. Arweinyddion a Chyfeilydd y Côr

Daeth dros 100 o aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau ynghyd i'r Bear yn y Bontfaen ar gyfer cinio arbennig i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu Côr Godre'r Garth.

Ffurfiwyd Côr Godre'r Garth yn 1974 gyda'r nod o hybu'r Gymraeg yn ardal a oedd, yr adeg honno, wrthi'n brysur yn ailddarganfod ei Chymreictod. Roedd llawer o Gymry Cymraeg wedi symud i ardal Pontypridd o bob cwr o Gymru a daeth y rhai cerddorol yn eu plith ynghyd yn Efail Isaf o dan arweiniad deheuig Wil Morus Jones a'r cyfeilydd Carey Williams. Bu'r côr yn fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar y cynnig cyntaf yng Nghaerfyrddin yn 1974.

Roedd y noson yn gyfle i hel atgofion, edrych ar luniau a fideos o'r côr a chlywed hanesion a sylwadau y pedwar Arweinydd fu'n llywio'r côr llwyddiannus.

Cynhelir cyngerdd dathlu yn Eglwys St Catherine, Pontypridd, nos Sadwrn 2il Tachwedd am 7yh.

Diolch Helen

Nos Wener 20 Medi cafwyd cyfle i edrych nôl dros lwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf ac edrych ymlaen i weld beth gellir ei wneud i fanteisio ar yr ewyllys da. Bu Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Helen Prosser, yn diolch i bawb am eu gwaith diflino a cafwyd cyfle i ni gyd ddiolch iddi hi am ei brwdfrydedd heintus a'i hymroddiad anhygoel. Rhoddwyd mwclis arian iddi fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i gwaith.

Gŵyl Morfydd Owen



Am y tro cyntaf cynhelir 'Gŵyl Morfydd Owen' ym Mhontypridd o 11 i 13 Hydref gyda rhaglen orlawn ar gyfer pob oed a diddordeb i gyd am ddim. Bydd yr ŵyl yn adrodd hanes 'merch anghofiedig' Trefforest, Pontypridd ac yn dathlu ei hetifeddiaeth gerddorol ac edrych ymlaen at ein dyfodol creadigol.

Dydd Gwener 1pm – 11pm
Dydd Sadwrn 10am – 11pm
Dydd Sul 10.30am – 6pm.

Y Muni, YMa, Amgueddfa Pontypridd, Clwb y Bont, Llyfrgell Pontypridd, Canolfan Calon Taf, Mill Street Quarter, Badmans/Storyville Books a Parc Arts.

Gwefan: www.morfydd-owen.cymru
Facebook: gwylmorfyddowenfestival

£10

Mae'n amser tanysgrifio unwaith eto i dderbyn Tafod Elái.

Gofynnwn i chi fynd i wefan
tafodelai.cymru
a thalu drwy'r linc gyda cherdyn debyd neu credyd.

Diolch i chi am eich cefnogaeth.

Pwy sydd am Helpu Tafod Elái?

Roedd nifer yn bresennol yng Nghyfarfod Blynyddol Tafod Elái, ein papur bro, ym mis Medi ac roedd pawb yn falch o ddiwyg a chynnwys y papur. Diolchwyd i'r rhai sy'n helpu i gasglu newyddion ac erthyglau ac i'r dosbarthwyr am eu gwaith.

Cafwyd sylwadau ar weithgarwch y papur. Mae'r gwerthiant i lawr (fel pob papur newydd) yn rhannol am nad yw pobl ifanc yn prynu papur. Mae Tafod Elái yn bapur gynhwysol gyda phytiau o ddalgylch eang. Efallai y daw ton o gefnogwyr newydd yn sgîl yr Eisteddfod.

Er fod y papur yn llwyddiannus ar hyn o bryd mae angen chwystrelliad o waed newydd i lywio'r papur i'r dyfodol neu bydd angen dod â'r papur i ben cyn bo hir.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Tachwedd
i gyrraedd erbyn
25 Hydref 2024

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

CLWB Y DWRLYN

Noson yn nghwmni

Aled Gwyn

8yh Nos Iau
24 Hydref 2024

Clwb Rygbi Pentyrch

Mynediad drwy Aelodaeth £15
neu £5 i ymwelwyr

Manylion pellach:
clwbydwrlyn@pentyrch.cymru

Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Hydref 7fed 2024
Guto Harri
Sylwebydd Gwleidyddol
Tachwedd 4ydd
Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd Y Gymraeg
Rhagfyr 2ail
Marged Hughes a Steffan Jones
Cerddorion
Chwefror 3ydd 2025
Alun Wyn Bevan
Sylwebydd Chwaraeon
Mawrth 10fed
Gwawr Owen
Cyfarwyddwr Cerdd
Ebrill 7fed
Eifion Glyn
Newyddiadurwr
Mai 12fed
Ffion Dafis
Y Theatr a Chelfyddydau

Cinio yng Ngwesty New House,
Y Ddraenen, CF14 9UA
Ymgynnull 7.00 at 7.30
Pris £30 y noson
Dyddiadau Isod
CROESO CYNNES I BAWB

DALIER SYLW
Mae'n ofynnol i chi dalu y gost o £30 pan yn archebu a hynny drwy drosglwyddiant Banc
Enw: Cylch Cinio Caerdydd
Côd didoli 52-21-63
Rhif y Cyfrif 12752274.
COFIWCH roi eich enw yn y blwch 'Reference'
cylch.cinio@gmail.com

Clwb RygbiPentyrch ac Academi Rygbi Lesotho

Mae Cymru wedi gefeillio gyda Lesotho ers pedwar degawd a bydd Clwb Pentyrch yn ogystal ag Ysgol Plasmawr (fydd yn ymweld yn flynyddol â Lesotho), Clwb Rygbi Caerdydd, Clwb Rygbi Tŷ Ddewi, Côr Godre'r Garth, Côr y Gleision, CAP Male Choir a nifer o glybiau eraill yn cyfrannu at elusen sy'n hyrwyddo bywyd iach, cydraddoldeb, cydweithio, parch i'r ifanc a'r frwydr yn erbyn HIV/Aids drwy rygbi. Mae 6 dyn a 3 gwraig ar hyn o bryd yn rhan o dîm hyfforddi sy'n ymwneud â 10,000 o blant bob blwyddyn. Maent yn dod â gobaith ac ysbrydoliaeth yn un o wledydd tlota'r byd. Theo Cabasngo yw llysgennad yr elusen.
(dolencymruwaleslesotholink.beaconforms.com)

Bydd Cyfarwyddwr yr elusen, Litsotso Motseremeli, cyn-bencampwr taekwondo Africa am 15 mlynedd, yn ymweld â Chlwb Pentyrch nos Wener 11 Hydref i weld ein plant ni'n ymarfer. Bydd yn gyfle i unrhywun hoffai gefnogi'r ymgyrch i gasglu kit neu arian gwrdd y noson honno tua 6.30 i drafod y posibiliadau.

Am fanylion pellach, cysylltwch â Colin Williams: 07768900738
colin.williams@talktalk.net

CYLCH CADWGAN

8yh Nos Wener
4 Hydref 2024

Dafydd Morse

yn siarad am feirdd Pontypridd a Chlic y Bont

yn
Y Ganolfan,
Tabernacl, Efailisaf

8yh Nos Wener
8 Tachwedd 2024

Rheinallt Llwyd

yn siarad am
Islwyn Ffowc Elis
ar ganmlwyddiant ei eni
yn
Y Ganolfan,
Tabernacl, Efailisaf

Taith yr Eisteddfod Clwb Mynydda Cymru

Gan taw ym Mhontypridd cynhaliwyd yr Eisteddfod eleni braf oedd medru trefnu taith o gwmpas yr ardal. Hyfryd oedd cael cwmni criw o un ar hugain led led Cymru wedi ymgynnull ger clwb Rygbi Pontypridd Heol Sardis ar fore bach digon cymysglyd o ran tywydd.

Cawsom ychydig o hanes yr ardal gan Penri Williams oedd wedi rhoi help llaw i mi drefnu'r daith. Mi esboniodd ein bod yn dechrau ar hen safle gwaith glo y Maritime un o saithdeg wyth pwll glo yn Ne Cymru pan oedd y diwydiant yn ei anterth.

Gan ddechrau trwy ddilyn llwybr beicio rhif pedwar (neu Llwybr y Ddraig sydd y dechrau ger Windsor ac yn gorffen yn Nhŷ Ddewi os hoffech daith o ryw 433 milltir) dyma ddringo digon hamddenol ar hyd Heol Gelliwion i gyfeiriad y Gorllewin. Ymlaen tuag at Fferm Cefn Coed a Chwrt Langton ble roedd y golygfeydd o'r ardal yn dod i'r amlwg. Gellir gweld lawr i'r Fro gydag Ynys Echni jyst yn y golwg a draw tuag at Wlad yr Haf.

Gan grwydro'r tir agored a dros ambell i ffens, dyma gyrraedd y man uchaf o'r daith sef Mynydd y Glyn (375m). Amser i gael paned fach a sgwrs i fwynhau'r golygfeydd 360 gradd o'n cwmpas.

Gan droi i gyfeiriad y Gogledd dyma ddisgyn lawr dros hen dip glo gan bwyllo unwaith eto i fwynhau'r ardal o'n cwmpas. Ar draws y cwm roedd hen fferm ble magwyd Guto Nyth Bran i'w gweld yn ogystal â phont tref y Porth. O'r man yma roedd Cwm Rhondda yn ymestyn i fyny i'r Gogledd Gorllewinol gan rannu yn ddau - Rhondda Fawr i fyny thuag at Dreorci a Rhondda Fach tuag at Ferndale a Maerdy.

Dyma ddisgyn ymhellach lawr y cwm nes daethom i Ganolfan Treftadaeth y Rhondda lle hynod o ddiddorol os cewch gyfle i ymweld. Penderfynodd ambell un o'r criw fanteisio ar y cyfle i ymweld â'r ganolfan a chael paned fach tra aeth y gweddill ohonom nôl ar hyd hen reilffordd oedd ar un amser yn cario glo i borthladd y Bari. Gan barhau i ddilyn yr afon Rhondda, dyma gyrraedd pen y daith nôl i Heol Sardis.

Cyfle i rai wedyn mynd ati i ymweld â Maes yr Eisteddfod neu gael paned yn y dref.

Taith o bron i ryw bedair awr, 464m o esgyniad, tua chwe milltir a hanner o hyd mewn cwmni difyr.

Adroddiad a llun gan Dewi Hughes

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Priodas Dda

Y Pier ym Mhenarth oedd y lleoliad hyfryd ganol mis Awst ar gyfer priodas Bethan PIckard a Matthew Rees.

Sara, chwaer Bethan, a Rhiannon Pritchard oedd y morynion a Joseph, brawd Matthew, oedd y gwas priodas.

Yna Mam-gu a Bamps (Shan a Mike) oedd â gofal Emlyn tra roedd ei fam a'i dad yn treulio ychydig ddyddie yn Llundain ar eu mis mêl.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt fel teulu bach.

Taith Anturus Dewi Hughes i Cordillera Blanca Peru

Dyma grwydro unwaith eto tuag at y mynyddoedd mawr. Yr Andes yn Ne America oedd y siwrne tro hyn – ardal y Cordillera Blanca; cyfres o gopaon i Ogledd Orllewinol prif ddinas Lima ym Mheru.

Wedi teithio am sawl awr o'r ddinas ar hyd heol y Pan Americanaidd sy'n rhedeg drwy Peru gan ddechrau yn Alaska a diweddu yn Chile, dyma gyrraedd tref fynyddig Huarez 3050m uwchben lefel y môr.

Dyma ddechrau cyfarwyddo â'r uchder gan wneud ambell daith i'r copaon uwchben y dref.

Wedi gorffwys am noson dyma ddechrau arni gan deithio yn uwch i gwm Llanaganuco (3900m) a gosod ein pebyll yno. Taith hyfryd fyny i lyn 69 (wedi cael yr enw gan fod gymaint â hynny o lynnoedd yn ardal y warchodfa) i uchder o 4650m.

Pwysleiswyd y pwysigrwydd o gerdded yn araf gan godi yn uchel gan bwyll i osgoi salwch mynydd.

Ymlaen wedyn yn uwch gan osod ein pebyll unwaith eto ar uchder o 4650m gyda help y criw o borthorion a mulod bu gyda ni trwy'r adeg gan gario y paciau trwm ar hyd y llwybrau serth.

Amhosib byddai hi wedi bod heb eu cymorth. Pobl cyfeillgar, parod ac eithriadol o gryf. Nid ar chwarae bach mae cario 50kg ar gefn. Dim signal ffôn na chawod am chwe niwrnod - tipyn o sialens yn ei hun yn yr oes fodern yma!!

Wedi paratoi cystal â medrwn (ymarfer sgiliau rhaff ac ati) dyma fynd at gopa mynydd Nevado Pisco (5752m neu 18871 troedfedd).

Gan godi am dri o'r gloch y bore a gwisgo y cramponau, helmed, dillad cynnes ac ati, dyma fynd amdani. Roedd yr awr gyntaf yn araf gan wau i fyny yn ofalus dros y rhewlif ac osgoi edrych lawr i ddyfnderoedd y crevasses o'n cwmpas! Wedi sawl awr, dyma gyrraedd y copa gan gofio taw hanner ffordd roeddwn i.

Fel mae mynyddwyr yn ei ddweud - mae cyrraedd copa yn ddewisol: mae dod lawr yn ddiogel yn orfodol.

Wedi deuddeg awr o frwydro dyma gyrraedd lawr yn ddiogel i'r babell a noson haeddiannol o gwsg cyn dechrau y siwrne hir nôl i Lima a gartref i Gymru Fach.

Taith i'w chofio. Gwlad hyfryd a gwerth ymweld â hi.

Dewi Hughes.

Urddo i'r Orsedd

Cafodd fy nhad a fi ein hurddo i'r Orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd.

Ymgeision ni am fod gan y ddau ohonon ni radd berthnasol o Brifysgol Aberystwyth, fy nhad yn y pwnc Cerddoriaeth (1984) a fi yn y Gymraeg (2015)

Roedd yr holl brofiad yn fythgofiadwy. Roedd rhaid i ni fod yn y pafiliwn dros awr cyn y seremoni ar y bore Llun er mwyn cael ein gwisgo yn ein gwisg werdd. Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o wynebau cyfeillgar cyfarwydd a wynebau cyfeillgar nad oedd yn gyfarwydd. Cawson ni ein cyfweld yn fyw ar y teledu gan Tudur Owen. Gofynnodd i ni sut o'n ni'n nabod ein gilydd ac roedd yn hapus i glywed ein bod ni'n cael ein hurddo gyda'n gilydd.

Ar ôl y seremoni, roedd yr orymdaith o

gwmpas y Maes yn wych. Roedden ni'n teimlo'n falch ac yn emosiynol wrth orymdeithio o gwmpas y Maes a mwynheuon ni weld ffrindiau ac aelodau'r teulu a oedd yn gyffrous. Llongyfarchiadau i ni!

Bethan Davies

Derbyniad Dinesig

Bob blwyddyn mae'r Cyngor Cymuned yn cynnal noson yn y Clwb Rygbi i ddiolch i'r cymdeithasau lleol sydd wedi bod yn trefnu amrywiol ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r ardal yn fwrlwm o weithgarwch ac roedd y lle dan ei sang ddechrau mis Medi i gydnabod ymdrechion y gwirfoddolwyr hyn. Ymhlith y siaradwyr eleni roedd Tony Crane ar ran Creigiau 23, Rhiannon Chivers yn cynrychioli Rotari'r Garth a Sara Thorne yn sôn am Gofeb y Lan. Derbyniodd Stuart Thomas Ryddfraint Pentyrch, Rhod Walters wobr gymunedol am ei waith gyda'r sgowtiaid a chafodd Hazel Davies gydnabyddiaeth am ei gwaith fel dynes lolipop am ddeugain mlynedd. Roedd yn gyfle gwych i gymdeithasu ac i gydnabod cyfraniadau arbennig y gwahanol gymdeithasau o fewn ein cymunedau.

Dymuniadau Gorau

Dymunwn yn dda i Judith Evans wrth iddi wella ar ôl gorfod treulio cyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

Ficer Newydd Sant Catwg

Croeso i 'r pentre i Edward Owen, ficer Newydd Eglwys Sant Catwg, a'i wraig Phillippa. Dymunwn yn dda iddynt a gobeithio byddant yn ymgartrefu'n hapus ym Mhentyrch.

Clwb y Dwrlyn

Er gwaetha'r glaw trwm roedd Clwb Rygbi Pentyrch yn llawn wrth i Ifan Roberts y cadeirydd groesawu'r aelodau yn hen a newydd i gyfarfod cynta'r tymor. Osian Rowlands a'i ffrindie oedd yno i'n diddanu.

Parhad tudalen 5 >

Pentyrch (Parhad)

Mae Osian bellach yn Brif Weithredwr Menter Iaith Rhondda Cynon Taf a fe yw arweinydd C.Ô.R sydd wedi codi miloedd o bunnoedd ar gyfer achosion da ers ei sefydlu yn 2013.

Cafwyd amrywiaeth o ganeuon ganddynt yn bedwarawd, triawd, deuawd ac unawdwyr. Roedd mwynhad y gynulleidfa yn amlwg wrth iddynt wrando ar yr hen ffefrynnau gan gynnwys gweithiau Robert Arwyn ac Eric Jones.

Cyfoethogwyd y noson gan gyfraniad hyfryd y plant – Dewi, Betsan a Beca. Cydymdeimlwyd gyda Dewi wrth iddo "gwyno" ei fod wedi cael "Bai ar Gam." Roedd Betsan ei chwaer yn datgan yn hyderus, "Mae gennyf hawliau" a Beca yn ein cyfareddu wrth iddi glocsio mor osgeiddig.

Roedd pawb yn siomedig pan sylweddolwyd bod y noson wedi dod i ben gyda chanu swynol Hafan Gobaith.

Dyna ddechrau arbennig iawn i'r tymor newydd.

Gwynn Matthews yn cael ei anrhydeddu gan yr Urdd Athronyddol

Ar y 19eg o fis Medi, roedd un o hoelion wyth cymuned ddeallusol y brifddinas, ac yn wir Cymru gyfan, yn dathlu achlysur arbennig yn Neuadd Eglwys Dewi Sant. Bydd Gwynn Matthews, brodor o Sir Ddinbych ond bellach o Bentyrch - academydd, addysgwr ac awdur toreithiog – yn cael ei anrhydeddu gan yr Urdd Athronyddol.

Ffurfiwyd y gymdeithas hon fel rhan o Adran Cyn Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru bron i ganrif yn ôl, i drin a thrafod y maes, ac mae ganddo hanes anrhydeddus o gynadleddau a chyhoeddiadau y mae Gwynn wedi cyfrannu n helaeth iddi.

Roedd yr Urdd yn cyflwyno iddo gyfrol gyfarch, yn dwyn y teitl Hunan a Chenedl, sydd yn gasgliad o benodau gan rai o feddylwyr mwyaf adnabyddus y Gymru Gyfoes, gan gynnwys yr Athro Lisa Lewis o Brifysgol De Cymru, Dr Llion Wigley a Dr Lisa Sheppard, a'r Athro Daniel Williams o Brifysgol Abertawe yn ogystal.

Dyma'r nawfed gyfrol yng nghyfres Astudiaethau Athronyddol, un a olygwyd tan yn ddiweddar gan Gwynn ei hun, yn ei swyddogaeth gynt fel Llywydd a Swyddog Cyhoeddiadau'r Urdd. Yn ysbryd diddordebau eang ac eangfrydig Gwynn, dyma gyfres o erthyglau difyr a gogleisiol gyda thrafodaethau ar amrywiaeth o bynciau, o Ddiwinyddiaeth i Lên Gymreig gyfoes.

Mae Gwynn wedi cyhoeddi'n sylweddol ar bynciau'n cynnwys Athroniaeth, Crefydd a Hanes lleol, ac roedd yn gyfle i ddathlu'r cyfraniadau amrywiol yma i fywyd deallusol Cymru.

Roedd y dathliad yng nghwmni rhai o'r cyfranwyr, gan gynnwys yr Athro adnabyddus – a chyn gyd-weithiwr gyda Gwynn – Densil Morgan.

TONTEG

Bu farw Meredydd Owen, Tonteg, yn 81 oed dechrau mis Medi. Yn frodor o Abergele aeth i Goleg y Drindod Caerfyrddin lle sefydlodd y grŵp gwerin Y Derwyddon gyda Dafydd Idris, Huw T Williams a Bob Cater. Grŵp gafodd gryn sylw yn y 1960'au a'r 70'au. Aeth ymlaen i weithio yn y byd darlledu a bu'n gyfarwyddwr gyda HTV a'r BBC. Cydymdeimlwn gyda'i deulu yn eu colled.

Eisteddfod y Cymoedd

EISTEDDFOD CYMOEDD

Nos Wener, Hydref 18fed
am 5:00

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Campws Y Gwyndy, Caerffili

Gwefan: www.eisteddfodycymoedd.cymru
@eistycymoedd

Eglwys Pentyrch

Gymanfa Ganu

7yh Nos Fawrth 15 Hydref

yn Eglwys Sant Catwg Pentyrch

Organydd: John Cheer.
Arweinydd: John Gough

Paned a Chlonc i Ddilyn.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Eddie Thomas, Heol y Ffynnon a fu farw ddiwedd mis Awst. Bu Eddie'n athro Cymraeg a Gyrfaoedd yn Ysgol Gyfun Bryn Celynnog am flynyddoedd lawer. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Llangrallo. Cydymdeimlwn yn ddiffuant a'r teulu yn eu colled a'u galar.

Llongyfarchiadau
Mae'n bleser cael dathlu llwyddiant nifer fawr o'r pentrefwyr a fu'n cystadlu, trefnu, stiwardio ac arlwyo yn Eisteddfod lwyddiannus iawn Rhondda Cynon Taf ddechrau Awst. Roedd yn braf gweld cymaint o'r pentrefwyr yn yr amrywiol bartïon a chorau ac yng nghyflwyniad Nia Ben Aur. Gwych iawn!

Dymuniadau Da
Dymunwn yn dda i blant a phobl ifanc y pentref sydd yn dechrau ar flwyddyn newydd ym myd addysg. Yr un yw ein dymuniad i'r bobl ifanc sydd yn gadael cartref i ddechrau ar eu cyrsiau yn y coleg, neu'n ail-afael yn eu cyrsiau coleg, a'r rhai hynny sydd yn dechrau ar swyddi newydd.

Ffair y Pentref
Cynhaliwyd Ffair y Pentref ar brynhawn Sul, Medi 8fed. Er ei bod yn brynhawn gwlyb a glawog fe ddaeth nifer dda o'r pentrefwyr i gefnogi'r fenter. Roedd amrywiaeth o stondinau yn Neuadd y Pentref a chyfle i fwynhau paned a theisennau blasus iawn.

Caniadaeth y Cysegr
Roedd yn braf clywed Geraint Rees yn cyflwyno "Caniadaeth y Cysegr" ar y radio fore Sul, Medi 1af. Gan fod y plant ar fin dychwelyd i'r ysgol fe seliodd Geraint ei gyflwyniad ar addysg, gan sôn am y plant, yr athrawon, y prifathrawon a'r myfyrwyr fydd yn ail-gydio yn eu cyrsiau. Daeth a'i raglen i ben gyda'r emyn "Dros Gymru'n gwlad", sef emyn a oedd yn boblogaidd iawn yn Ysgol Plasmawr pan roedd Geraint yn brifathro yno.

Cylch Cadwgan
Cynhelir cyfarfod o Gylch Cadwgan a drefnir gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant yng Nghanolfan y Tabernacl nos Wener, Hydref 4ydd am 8 o'r gloch. Y Siaradwr gwadd fydd Dafydd Morse a fydd yn cyflwyno hanes rhai o feirdd Pontypridd a Chlic y Bont.

Y TABERNACL
Yr Ysgol Sul, Y Twmiaid Bach a'r Twmiaid
Ar ôl saib yn ystod mis Awst, mae'n braf cael croesawu'r plant a'r bobl ifanc yn ôl i'r Oedfaon. Mi wnaeth plant yr Ysgol Sul fwynhau sesiwn "Croeso Nôl" gyda digon o hwyl, sbri a gemau. "Parti Pitsa" ddenodd y Twmiaid yn ôl i'r Ganolfan ar brynhawn Sul, yr wythfed o Fedi. Pob hwyl i chi gyd am y tymor a diolch i athrawon yr Ysgol Sul ac i Eleri Mai am eu hymroddiad.

"Dechrau Canu, Dechrau Canmol"
Roedd yn bleser cael gwylio'r rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol nos Sul Medi 15fed. Cyflwynwyd y rhaglen gan Lowri Morgan a fu'n sgwrsio gydag amryw o'r criw gweithgar sy'n cyfarfod yn Y Tabernacl ar foreau Iau a Sadwrn. Maent yn derbyn a threfnu'r nwyddau cartref i'w rhoi i'r rhai sydd ar fin symud i'w cartrefi eu hunain am y tro cyntaf. Bu Lowri hefyd yn sgwrsio gyda'r garddwyr ar dir yr eglwys. Mae'r Tabernacl wedi troi'n ganolbwynt i'r gymuned ehangach yn Efail Isaf a gwaith y criw prysur yma o dan arweiniad diflino John Llewelyn Thomas yn dangos gwir werth Cristnogaeth ymarferol.

Sul Un Byd
Cyfarfod yn y prynhawn fydd cynulleidfa'r Tabernacl ar y trydydd Sul yn y mis erbyn hyn. Thema'r Oedfa ar Sul, Medi 15fed oedd gwarchod yr amgylchedd o dan arweiniad Heulyn Rees ac aelodau'r Twmiaid. Croesawodd Heulyn, Gareth Clubb o WWF Cymru ac mi gafodd y ddau sgwrs am sut i warchod yr amgylchedd. Croesawyd aelodau'r gynulleidfa i'r Ganolfan am baned a chacen ar ddiwedd y prynhawn.

Diolch yn fawr
Yn ddiweddar derbyniodd yr eglwys yn Y Tabernacl gyfraniad sylweddol, sef cyfran o waddol Eglwys Sardis Pontypridd. Rydyn ni fel aelodau'n hynod ddiolchgar am y cyfraniad, ond yn teimlo rhyw dristwch fod yr achos yn Sardis wedi gorfod dirwyn i ben. Mae'n croeso ni'n gynnes iawn i gyn-aelodau'r Sardis sydd wedi ymuno â ni yn Tabernacl.

Ffynhonnau Byw
Cyflwynwyd siec o £1250 i'r Parchedig Dyfrig Rees fore Sul Medi 22 yn ystod yr Oedfa i gefnogi Apêl Ffynhonnau Byw, sef apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg tuag at waith Cymorth Cristnogol yng Ngholombia. Defnyddir yr arian i gefnogi cymunedau a effeithiwyd gan drais, i gryfhau heddwch, hawliau merched ac i addasu amaethu yn wyneb newid hinsawdd.

Iwan Rowlands, Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr Tabernacl, yn cyflwyno siec i Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr tuag at Apêl Ffynhonnau Byw

Calendr y Tabernacl
Fore Sul, Medi 29ain cynhelir Bore Brecwast yn Neuadd y Pentref.
Cynhelir Cinio Cynhaeaf ar ddydd Sul, Hydref 13eg yn Neuadd y Pentref. Bydd y cinio'n dilyn yr Oedfa tua 12 o'r gloch. Dewch yn llu i gefnogi.

Bore Coffi
Cynhaliwyd Bore Coffi MacMillan yng Nghanolfan y Tabernacl fore Mawrth, Medi 24ain. Daeth nifer dda o'r pentrefwyr ac aelodau'r Tabernacl i gefnogi'r bore. Codwyd £203 yn ystod y bore a bydd hwn a chyfraniad o £100 o'r Bore Coffi Gwener yn cael ei gyflwyno i Gronfa MacMillan yn ogystal â £100 o gyfraniad ychwanegol gan Ferched y Tabernacl.

Merched y Tabernacl
Cynhaliwyd Bore Coffi Merched y Tabernacl yn Y Ganolfan fore Gwener 27ain o Fedi. Prif amcan y cyfarfod oedd trefnu rhaglen ar gyfer y tymor. Cyflwynir elw'r arian raffl am y flwyddyn 2023-24 i £100 Apêl MacMillan a £100 Cronfa Alzheimer's. Codwyd y gan bunt i Gronfa MacMillan wrth fwynhau paned a danteithion.
Bydd cyfarfod nesaf y Merched ar ddydd Gwener Hydref 4ydd yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd. Byddwn yn cyfarfod am baned a sgwrs am hanner dydd.

Oedfaon mis Hydref
Hydref 6 Gwasanaeth Cymun o dan ofal Y Parchedig John Roberts
Hydref 13 Y Parchedig Aled Edwards
Hydref 20 "Hwyl y Gân" am 3 o'r gloch y prynhawn. Band y Diarhebion a'r Cyfeilyddion. Cacen a phaned i ddilyn yn y Ganolfan.
Hydref 27 Hanes Ann Griffiths gan Gaenor Jones.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Dawn Walters

Cystadleuaeth Agored Cymru - Dawns Lladin a Ballroom
Llongyfarchiadau i Esmay a Verity Walters a'u partneriaid. Pencampwyr dan 16 ac 12.

Noson Gwobrwyo Tîm Rygbi'r Gweilch
Mae cyfoeth o dalent ifanc wedi dod trwyddo o Lwybr y Gweilch eleni, ac mae hynny i raddau helaeth oherwydd gwaith caled cyson Gwalch y Flwyddyn, Gareth Walters, Rheolwr Llwybr Datblygu.

Adref o Awstralia

Cor Meibion Perth yn canu gyda Côr Meibion Goronwy

Roedd David Bonner, gynt o Gilfach Goch ar raglen 'Pnawn Da' ar 31 Gorffennaf yn sôn am Gôr Meibion Perth, Awstralia, a oedd wedi dod draw i Gymru ar daith. Mae David yn fab i'r diweddar Dewi Bonner, Gilfach Goch ac yn frawd i Ann Passmore, Radyr, a'r diweddar Elinor Triggs.

Gadewodd e Gymru ar ôl coleg, gyda tri ffrind oedd wedi bod yn Ysgol Ramadeg Tonyrefail gyda'i gillydd, roeddynt yn anelu am Seland Newydd. Ond wnaeth y pedwar ffrind setlo yn Perth am ei fod mor braf ac ma nhw mewn cysylltiad hyd at heddi - 50 mlynedd yn ddiweddarach!

Dros y blynyddoedd collodd David ei Gymraeg i raddau helaeth ond wedi ymddeol cwrddodd â chyfaill oedd am ddysgu'r iaith a phenderfynon nhw gyd-weithio. Mae'n un o gyflwynwyr y cyngherddau ac mae Côr Meibion Perth wedi gwneud gwaith ardderchog yn dysgu caneuon Cymraeg ar gyfer y daith.

Bu ei chwaer, Ann, yn cefnogi'r côr ar eu taith drwy Ogledd Cymru o Gaer i Fiwmares ac wedi mwynhau fod yn un o grwpîs y côr.

Cyngor Cymuned Ras Y Goedwig
Gyda'r Gemau Olympaidd yn eu hanterth, cynhaliodd plant Gilfach Goch eu digwyddiad eu hunain, er gwaethaf tywydd Prydeinig grêt. Cynhaliwyd Ras Goedwigaeth Plant / Diwrnod Hwyl Blynyddol y Cyngor Cymuned ar 7 Awst gyda phlant o bob oed yn mynd i'r afael â'r tir anodd i ennill eu medal aur eu hunain. Mae'r digwyddiad hwn yn parhau i fynd o nerth i nerth gyda 118 o redwyr eleni.

Eisteddfod y Rhondda
16-11-2024
Capel Hermon, Treorci
www.eisteddfodyrhondda.cymru

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis: Sara Davies

Cronfa Blodyn Cof Felindre
Diwedd mis diwetha', cyrhaeddwyd carreg filltir nodedig dros ben yn hanes *'Cronfa Blodyn Cof Rhian Griffiths'* o Forest Hills, Tonysguboriau. Mae Wayne a Jayne Griffiths wedi llwyddo i godi dros filiwn o bunnau er cof am ei merch annwyl Rhian, a fu farw o gancer ceg y groth yn 2012 yn 25 mlwydd oed.

Ers sefydlu *'Cronfa Blodyn Cof Rhian'/ 'The Rhian Griffiths Forget Me Not Fund'* mae eu gweithgarwch di-flino a'u hymrwymiad i hybu'r gwaith ymchwil yn y maes ac i gynorthwyo cleifion a'u teuluoedd wedi bod yn gwbl rhyfeddol.

Cyngerdd Coffa Dean Powell
Ar nos Iau, y pumed o Fedi cynhaliwyd cyngerdd coffa yn Eglwys y Plwyf, Llantrisant, i Dean Powell, a fu farw, ychydig dros flwyddyn yn ôl, yn bum deg ag un mlwydd oed.

Roedd Dean yn newyddiadurwr, yn ddarlledwr, yn awdur a hanesydd lleol ac yn arweinydd amlwg yn ei gymuned. Roedd hefyd yn Reolwr yn Neuadd y Dref, Llantrisant a gweithiodd yn ddygn i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei adnewyddu'n ganolfan hardd a defnyddiol i groesawu ymwelwyr ac i gynnal digwyddiadau amrywiol.

Y prif atyniad oedd Côr Meibion Treorci - y côr byd-enwog yr oedd Dean yn aelod blaenllaw ohono am dros ddeng mlynedd ar hugain. Roedd yn gyflwynydd medrus gyda'r côr ac hefyd yn unawdydd a feddai lais tenor swynol dros ben. Cyn ei farwolaeth anhymig cafodd yr anrhydedd o'i wneud yn aelod oes o'r côr.

Cafwyd cyflwyniadau cofiadwy hefyd gan y soprano adnabyddus Ros Evans, sydd wedi perfformio mewn amryw o neuaddau cyngerdd ar draws y byd, gan gynnwys Tŷ Opera Sydney. Yn ystod ei gyrfa fel unawdydd chwareuodd rhannau blaenllaw gydag Opera Cenedlaethol Cymru, Opera de Bauge a Musica Redivia yn Rhufain.

Yn cymryd rhan hefyd oedd merched Cantorion Richard Williams, côr y gwahoddwyd Dean i fod yn Gadeirydd Anrhydeddus iddo yn 2022.

Gwerthwyd pob tocyn ac fe gafodd y rhai a fynychodd y cyngerdd hwn fwynhau noson a fydd yn aros yn y cof am amser hir.

Mainc Coffa Dean:
Yn ddiweddar gosodwyd mainc hardd ar lawnt Castell Llantrisant i gofio am Dean. Rhoddwyd y fainc gan Cyngor Cymuned Llantrisant ac Ymddiriedolaeth Tref Llantrisant er mwyn anrhydeddu gŵr a gyfrannodd gymaint yn ei gymuned.

Priodas Sioned ac Oliver
Llongyfarchiadau i Sioned Scott ac Oliver Holden ar eu priodas ar y 10fed o Awst. Mae Sioned yn ferch i Dennis ac Eluned Davies Scott, Meisgyn ac yn gyn -ddisgybl o Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth ac Ysgol Gyfun Plasmawr. Cafwyd tywydd bendigedig ar gyfer y



dathliad yn Findon Place, Gorllewin Sussex. Er mai yng nghanol Lloegr y cynhaliwyd y briodas, cafwyd naws Gymreig i'r gwasanaeth, gyda darlleniadau yn y Gymraeg. Yn ystod y brecwast priodas cyflwynodd Eluned gywydd hyfrd a sgrifennwyd i'r ddau gan y Prifardd Cyril Jones.

Merched y Wawr Cangen Tonysguboriau a'r Cylch
Braf oedd croesawu pawb yn ôl wedi haf prysur. Cafwyd cyfle i sgwrsio tra'n 'crafu pen' i drio cofio ffeithiau ar gyfer cwestiynau cwis oedd wedi ei baratoi gan Glenys Griffiths. Diolch Glenys am roi sialens i'r celloedd llwyd!

Mae digon o amrywiaeth yn y rhaglen ar gyfer y tymor newydd gan obeithio y bydd rhywbeth i blesio pawb, gan gynnwys aelodau newydd.

Helen Prosser sy'n gyfrifol am y cyfarfod nesaf ar Hydref yr 16eg am 7 o'r gloch yn Caffe50 Pontyclun. Bydd hwn yn gyfle i ddathlu diwrnod Su' mae/ Shwmae? Mae croeso i siaradwyr Cymraeg newydd ymuno â'r gangen.

Colofn Blasus a lachus

Eluned Davies-Scott

Y crymbl gostyngedig

Pwdin o'ch plentyndod; yn boeth, yn felys; bwyd cysurus ar ei orau. Mae'n debyg ei fod hefyd yn un o'r ryseitiau cyntaf i chi geisio ei wneud mewn gwers Gwyddor Tŷ.

Nid yw llyfr coginio *Traditional Puddings* yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn sôn o gwbl am grymbl. A choeliwch na pheidio, mae'r cyfeiriad cyntaf am grymbl gan fenyw o'r enw Mary Norwak mewn cyhoeddiad Americanaidd ym 1950 (*Fanny Farmer's Boston Cookbook*). Gan droi at fy ffynhonnell fwyaf dibynadwy ar gyfer ymchwil, *The Oxford Companion to Food*, mae Alan Davidson yn awgrymu bod y crymbl fwy na thebyg wedi tarddu o gyfnod yr ail ryfel byd fel dewis cyflymach a haws yn lle crwst; ac yn wreiddiol, byddai wedi defnyddio pa fraster bynnag oedd ar gael ar y pryd.

Mae'r rysáit draddodiadol yn defnyddio blawd plaen, siwgr a menyn ac mae rysáit Nigel Slater yn defnyddio'r cynhwysion hyn hefyd. Mae'n defnyddio prosesydd bwyd a meintiau cyfartal o flawd a menyn cyn ychwanegu siwgr mân a thaenelliad o ddŵr i wneud y cymysgedd yn debyg i 'gerrig mân'. Mae Nigella Lawson, menyw sy'n edrych fel ei bod yn gwybod sut i werthfawrogi crymbl da, yn honni bod gwead y topin yn cael ei wella trwy roi'r cymysgedd yn y rhewgell am amser byr ar ôl iddo gael ei rwbio at ei gilydd. Mae Nigella hefyd yn honni bod rhwbio'r menyn i mewn â llaw yn creu "crymbl mwy boddhaol; mae'r prosesydd yn gallu gwneud y briwsion mor fân sy'n arwain at ansawdd cacen yn hytrach na gwead briwsionllyd". Os am ddefnyddio'r prosesydd i osgoi cael y cymysgedd o dan eich gwinedd, defnyddiwch y botwm 'pulse' i osgoi cael briwsion bach, blawdiog.

Yn ei hymchwil i greu'r crymbl 'perffaith', mae'r colofnydd bwyd Felicity Cloake yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau. Er ei bod hi'n hoff o flas y siwgr brown meddal, mae'r gwead mân yn gwneud y crymbl gorffenedig ychydig yn dywodlyd. Mae siwgr Demerara yn ychwanegu gwead crensiog a blas, ond nid yw'n gôr hoff o'r ansawdd. Yn y pen draw, mae hi'n setlo ar gymysgedd cyfartal o Demerara siwgr caster euraidd. Mae ceirch wedi'u rholio yn ychwanegiad braf at grymbl afal ac mae Cloake yn hoffi llond llaw wedi'i wasgaru ar ei ben sy'n ei dostio,yn hytrach na chael ei gymysgu i mewn i'r cynhwson eraill sy'n gallu arwain at wead tebyg i uwd.

Ceir bob math o fersiynnau o'r topin gan gogyddion. Mae Jane Grigson yn defnyddio cymysgedd cyfartal o almonau mâl a blawd plaen. Mae cnau i'w gweld yn ychwanegiad poblogaidd, gellir ychwanegu cyll neu gnau Ffrengig wedi'u torri i wella gwead a blas.Yn ei lyfr coginio '*Tom Kerridge Cooks Britain*' mae'r cogydd yn defnyddio cnau cyll a cheirch gyda llenwad o afalau, mwyar duon a gellyg. Awgrymir Nigel Slater mai cnau almon sydd orau gyda ffrwythau carreg fel bricyll neu eirin. Mewn rysáit ar gyfer eirin Victoria, mae'n ychwanegu marsipán at y crymbl gan ddefnyddio 120g o flawd plaen, 120g o fenyn oer, 75g o almonau mâl a 40g o siwgr mân. Ar ôl eu paratoi, mae 200g o farsipán wedi ei rholio yn beli bach, tua maint cnau cyll, yn cael eu troi i mewn cymysgu i mewn i'r crymbl ac yna 3 llwy fwrdd o naddion almonau yn eu gwasgaru ar yr wyneb.

Tahini, hadau sesame a nigella yw ffefrynnau Melek Erdal. Llwy de o sinamon wedi'i falu a rhywfaint o siwgr Demerara "ar gyfer crensian" yw dewis Nadia Hussain. Awgrymiadau Yotam Ottolenghi yw ychwanegu creision ŷd neu gnau coco wedi'u sychu, nibs cacao, cnau macadamia a siwgr palmwydd Thai ar gyfer rhywbeth tebyg i does cwci. "Mae siwgr palmwydd yn fwy gludiog a'r canlyniadau'n ddymunol, gooey mewn mannau ac yn grimp mewn eraill" meddai.

Mae hefyd yn werth rhoi cynnig ar flawdau eraill, fel rhyg a gwenith yr Almaen (spelt). Mae blawd gwenith cyflawn yn dda i riwbob a sinsir a gwenith yr hydd ar gyfer afalau. Rhowch dro ar ddefnyddio gellyg wedi'u potsio ag anis seren, ffon sinamon, fanila, ychydig o groen oren gyda chrymbl cnau. Gallwch arbrofi gyda chyflasynnau cymaint ag y dymunwch, cyn belled â'ch bod yn cadw'r cymysgedd yn weddol ysgafn, a pheidiwch â'i orweithio. Mae cymysgedd o flawd a ceirch di-glwten yn addas hefyd. Beth bynnag yw eich dewis dylai crymbl fod yn gyflym, yn syml ac, i mi, rhaid i'r topin fod wedi'i bobi'n dda, yn grimp, yn euraidd a heb fod yn rhy sych gyda'r ffrwythau'n diferu allan ar ymyl y ddysgl ac wedi'u carameleiddio ychydig. Rwy'n cytuno â Cloake sy'n dweud y dylent gael eu gweini â chwstard trwchus (gan gwmni Mr Bird, yn naturiol!).

A beth am drio crymbl sawrus? Yn ôl yr awdur bwyd Esther Clark "mae crymblau yn hynod gyfleus: maen nhw'n mynd i mewn i un tun, felly prin fod

unrhyw olchi llestri, ac maen nhw'n rhewi'n dda hefyd, gan eu gwneud yn ddewis da ar gyfer pryd yn ystod yr wythnos". Mae'r rhan fwyaf o ysgrifenwyr bwyd yn cytuno y dylai topins fod yn gneuog ac yn cynnwys ceirch. Gallwch arbrofi â blasau trwy ychwanegu sbeisys fel ffenigl, cwmin, hadau carwe, garam masala, hadau coriander wedi'u malu, ffenigrig sych, tyrmerig, cayenne a pherlysiau fel saets (ddim i gyd ar unwaith!) . Mae caws wedi'i gratio hefyd yn ychwanegiad blasus. Mae crymbl gyda saets wedi'u torri'n fân, cnau cyll, cnau Ffrengig neu pecans, ac efallai ychydig o hadau pwmpen rost yn dop da ar gyfer bwmpenni (rhostiwch y rhain yn gyntaf cyn cyfuno â gwaelod bechamel â blas mwstard Dijon a chaws glas).

Efallai y byddai'n werth rhoi cynnig ar rai amrywiadau newydd ar y rysáit sylfaenol yr hydref hwn trwy wneud crymbl sawrus. Dwi'n hoff iawn o rysáit Good Food ar gyfer crymbl cnau menyn a thomato ac un sy'n defnyddio llysiau'r gaeaf gydag almonau mâl, cnau almon wedi'u naddu a Pharmesan yn y topin (ar wefan Good Food). Arbrofwch gan wneud yn fawr o'r llysiau a ffrwythau sydd ar gael yn yr hydref.

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi Gwilym Roberts, yr ymgyrchydd iaith a'r cyn athro, sy wedi sgrifennu hunangofiant.

Beth yw eich gwaith? Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?
Bues i'n athro Cymraeg yng Nghaerdydd am 31 o flynyddoedd. Yna yn Haf 1990 ymddeolais i'n gynnar yn 55 oed, gan ddweud wrth bawb fy mod i'n 'newid cyfeiriad'. Ond heb wybod ar y pryd beth fyddai hynny'n ei olygu. Ond ymhen blwyddyn yn Haf 1991 hedfanais i draw i'r Wladfa ym Mhatagonia i ddysgu Cymraeg yn Nyffryn Camwy am flwyddyn. Ond aeth y flwyddyn yn dair blynedd gan i mi fwynhau'r profiad gymaint.

O ble rydych chi'n dod? Ble rydych chi'n byw nawr?
Ces i fy ngeni yn 1935 yn Llanisien a felly hogyn o Gaerdydd ydw i er i mi gael fy magu yn yr hen Sir Forgannwg ym Mhentre'r Gerddi yn Rhiwbeina a dwy'i yno byth.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?
Addysg Saesneg dderbyniodd fy mrawd a minnau gan nad oedd addysg Gymraeg ar gael pan oedden ni'n blant a felly alla'i ddim dweud fy mod i wedi mwynhau'r profiad hwnnw â ninnau wedi ein magu'n Gymry Cymraeg ar yr aelwyd.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya?
Fy rhieni, siwr o fod, oedd y dylanwad mwyaf yn hanes fy mrawd a minnau gan iddyn nhw ymdrechu mor galed i'n codi yn Gymry Cymraeg. Yna des i dan ddylanwad Dr Jac L Williams, fy narlithydd Cymraeg yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, ac wedi hynny yn y Gyfadran Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Pam cyhoeddi hunangofiant? Beth oedd y broses?
Penderfynais i sgrifennu fy hunangofiant er mwyn rhoi ar gof a chadw fy hanes yn ymwneud â'r Gymraeg dros y blynyddoedd. Bues i am flwyddyn yn paratoi'r llyfr cyn cysylltu â Gwasg Carreg Gwalch i ofyn a fyddai diddordeb ganddyn nhw i'w gyhoeddi.

Beth sbardunodd chi i frwydro dros yr iaith? Mae gennych chi frwdfrydedd a dyfalbarhad. Beth yw'r rheswm am hynny?
Des i'n genedlaetholwr yn ystod fy arddegau a magais i gariad angerddol at yr iaith a'i dyfodol yn y broses. Dyfal donc a dyr y garreg, medden nhw, a throais fy ngolygon at hybu gwaith Mudiad yr Urdd a'r Mudiad Meithrin achos heb blant a phobl ifanc yn siarad yr iaith does dim dyfodol i unrhyw iaith mewn gwirionedd.

Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?
Does dim cof imi gael cyngor gan neb ond mabwysiadais i gyngor i mi fy hun sef dangos parch i bawb dwy'n dod i gysylltiad â nhw ar ôl profiad yn y fyddin yn 18 oed, gweld trin milwr ifanc fel minnau yn wael gan nad oedd yn gallu martsio fel pawb arall a'r creadur druan fel pysgodyn mewn cae tatws.

Beth oedd eich llwyddiant mwya? Y siom fwya? Beth yw'r gwersi gafodd eu dysgu?
Sefydlu Cylch Meithrin Cymraeg yn fy milltir sgwâr nôl yn Hydref 1959. Mae'r cylch yn dal i ffynnu ar ôl 65 o flynyddoedd. Ond y siom fwyaf oedd methu cael y maen i'r wal i gael Ysgol Gymraeg yn Rhiwbeina er mae plant Rhiwbeina bellach yn gallu derbyn addysg Gymraeg yn Ysgol y Wern yn Llanisien yn y pentre nesa. Ond rhaid derbyn y melys a'r chwerw yn yr hen fyd 'ma a dal ati er gwaetha pawb a phopeth.

Beth sy'n eich calonogi am y Gymru gyfoes? Beth sy'n eich tristáu?
Dros y canrifoedd mae'r Gymraeg wedi bod mewn perygl ond diolch i grefydd yn arbennig cadwyd yr iaith yn fyw hyd heddiw. Oherwydd y trai ar grefydd gwelwyd dirywiad yn safon yr iaith lafar ac mae hynny yn fy nhristáu ond, ar y llaw arall, mae bri ar y diwylliant drwy Yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Yr Ŵyl Gerdd Dant, Tafwyl a gwyliau tebyg a chanu pop sy'n denu'r ifanc.

Beth yw'ch neges i'r genhedlaeth ifanc?
Fy neges ydy eu hannog nhw i ddal ati i siarad a chefnogi'r iaith a magu argyhoeddiad fod yr iaith yn werth ei harddel a'i chadw'n fyw.



Beth sy ar y gweill?
Gan fy mod i'n 'hen fel baco' bellach, chwedl pobl Patagonia, dwy'n gyfyng yn yr hyn alla' i gyflawni ond dwi'n dal i sgrifennu colofn fisol ym mhapur bro *Y Dinesydd*, ac yn canu'r organ yn y capel Cymraeg yn Rhiwbeina a chefnogi Cymdeithas Gymraeg yr ardal.

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd
Cinio Nadolig a chinio dydd Sul ond heb y pwdin Efrog.

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?
Yn fy amser hamdden byddaf wrth fy modd yn darllen llyfrau a chylchgronau Cymraeg, gwylio rhaglenni dogfen a rygbi a tenis ar y teledu a sgrifennu llythyrau at fy ffrindiau a theulu.

Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845277178&tsid=3

***Hunangofiant Gwilym Roberts - Dros ysgwydd y blynyddoedd*, Gwasg Carreg Gwalch, £8.99**

Gwilym Roberts gyda Tlws Coffa Aled Roberts a roddir i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad gwirfoddol nodedig i'r sector Dysgu Cymraeg.

Mae'n Wlad i Mi Hunangofiant Edward Morus Jones



Mae un o sylfaenwyr y canu 'pop' Cymraeg newydd ddathlu'i bedwar ugain. Os nad ydi hynny yn dangos fod ein canu cyfoes wedi dod i oed – beth sydd! Yr arloeswr hwnnw, wrth gwrs, yw Edward Morus Jones ac eleni hefyd mae'n cyhoeddi ei hunangofiant.

Dyma sut mae Dafydd Iwan yn cofio recordio'i record gyntaf i gwmni Teldisc gydag Edward y 1960au:

'Nid anghofiaf fi byth y sesiwn recordio cyntaf hwnnw, yng Nghlwb Cymdeithasol Crynant yng Nghwm Dulais, y cwm sy'n rhedeg yn gyfochrog â Chwm Nedd. Bore Sul oedd hi, a gwirfoddolwyr y clwb yn golchi gwydrau'r noson gynt am y pared â ni. Roedd yn brofiad cwbl newydd i'r ddau ohonom, a safem o flaen un meicroffon a pheiriant recordio Ferrograph, a ffwrdd â ni! Doedd Jo Jones (a weithiai i Teldisc ar y pryd, cyn gadael i sefydlu cwmni Cambrian) ddim yn poeni rhyw lawer am safon y canu, ond swniai yn fodlon iawn wedi inni recordio 4 cân ar gyfer EP. Gan i'r gwaith gael ei wneud mor gyflym, 'O's rhagor o ganeuon gyda chi?' oedd cwestiwn Jo, 'wa'th inni neud EP arall tra bo' ni 'ma.' Wedi meddwl am sbel, daeth Edward a minnau i'r casgliad fod tair cân arall yn barod, ond methwyd â chael hyd i eiriau Cymraeg Edward i glasur Woody Guthrie, 'This Land is My Land', felly doedd dim amdani ond cyfansoddi penillion i honno'n y fan a'r lle. A'r fersiwn a glywir ar yr EP honno oedd y tro cyntaf i Edward a minnau ei chanu, er i gannoedd o berfformiadau ddilyn wedyn.'

Cofleidiodd Edward ei wlad yn ei ganu ac mae'r hunangofiant yn creu darlun o un oedd yn caru pob cwr o Gymru, yn gwerthfawrogi pob cyfle a gawsai i gydweithio dros yr iaith gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd ac ar led y wlad. Cawn ddarlun o'i fagwraeth yn Llanuwchllyn a'r addysg bellach yn Ysgol Ramadeg y Bala. Bu'n gweithio i Farmers Marts cyn mynd am y Coleg Normal ac yna'n athro yng Nghaerdydd a Thon-teg. Daeth yn ôl i Lanuwchllyn cyn symud i Landegfan, Môn. Ym mhob man, bu'i gyfraniad i weithgareddau'r Urdd ac i ddatblygu cyrsiau i ddysgwyr Cymraeg yn ddiarhebol.

Mae'i stori yn mynd â ni y tu hwnt i ffiniau Cymru yn ogystal. Dechreuodd ymwneud â gwaith Undeb y Cymry ar Wasgar ym 1983 a bu'n allweddol wrth lwyddo i ddiweddaru a bywiogi'r ddarpariaeth ar gyfer Cymry sy'n dychwelyd i'r Brifwyl o bedwar ban byd. Yn ei dro, ymwelodd yntau â chymdeithasau Cymraeg dramor a chawn flas ar eu dathliadau yn y gyfrol. Gwirfoddolodd hefyd i wneud gwaith dyngarol yn Israel a Phalesteina.

Wrth gau pen y mwdwl, mae'n naturiol ei fod yn cloi gyda'i gyffro wrth weld cenedlaethau iau ei deulu yn ysgwyddo cyfrifoldebau ac yn disgleirio. Hunangofiant annwyl a gobeithiol gan un sydd â straeon da i'w rhannu. I gloi, cynhwysir geiriau nifer o'i ganeuon – ac mae'r rheiny'n peri i'r atgofion lifo yn ogystal!

Cyd-awdur y gyfrol ar ran y wasg yw Owen Wyn Owen o'r Felinheli.

Mae'n Wlad i Mi - Gwasg Carreg Gwalch £8.99

www.carreg.gwalch.cymru

www.gwales.com

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

Gweithgareddau Cymraeg

Os ydych chi am ddefnyddio'ch Cymraeg yn Nhonyrefail, mae dau weithgaredd yng nghaffi Ar Ben y Byd yn y Stryd Fawr:

Grŵp Sgwrs dros Ginio bob yn ail ddydd Mawrth am 1pm (cyfarfod nesaf ar 8 Hydref)

Gwersi ukulele am 5pm bob dydd Iau, yn dechrau ar 7 Tachwedd

Dathlu'r Eisteddfod Genedlaethol

Cynhelir cyngerdd i ddathlu pawb o Donyrefail a gymerodd ran yr yr Eisteddfod nos Fercher, 6 Tachwedd yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail. Croeso i bawb!

Parc Sglefrfyrddio

Ar ôl blynyddoedd o ddigwyddiadau codi arian a llenwi ffurflenni grant, mae Parc Sglefrfyrddio Tonyrefail ar agor ym Mharc Tyn-y-bryn. Cynhelir yr agoriad swyddogol ddydd Sul, 13 Hydref. Bydd y grŵp Cymraeg 'Paid Gofyn' yn chwarae mewn digwyddiad codi arian nos Wener, 29 Tachwedd yng Nghlwb y Glowyr. Bydd yn adnodd gwych i ni yn y pentref.

Brecwast Mawr

Mae Eglwys Dewi Sant yn cynnal Brecwast Mawr i godi arian i Gymorth Cristnogol fore Sadwrn, 16 Tachwedd o 9.30am ymlaen. Croeso i bawb!

Merched y Wawr Cangen y Garth

'Dwn i'm os oes gair Cymraeg am *starstruck* - ond *starstruck* oeddwn i wrth wrando ar ein gwestai y mis 'ma - Catrin Heledd! Am gymeriad! Am straeon difyr! Mor ddiymhongar! Mor hawdd gwrando arni! Diolch am ddod atom yng nghanol dy brysurdeb - cyflwyno Scrum V, angori rhaglenni newyddion, adroddiadau o Wimbledon, y Crucible, Parc y Sgarlets a'r Principality, gêmau'r gymanwlad, y gêmau Olympaidd! Am gyfraniad i fyd darlledu! Sylwer - roedd hi'n brydlon ac wedi paratoi'n drylwyr!

Daeth Eleri - Mam arbennig Catrin - i lywio'r p'nawn yn ddeheuig yn ei ffordd ddi-hafal ei hun. Di-ffws, di-rodres! Diolch Ler! Y cwestiwn cyntaf i Catrin oedd - ble ddechreuodd y diddordeb mewn perfformio/cyflwyno/sylwebu? Daeth yr ateb yn glir - creu fideo - hi a'i chwaer fawr, Sara - ar ddiwrnod priodas eu modryb - Catrin tua pedair a Sara rhyw flwyddyn neu ddwy yn hŷn. Dylanwad Dad - bid siwr - ydoedd hyn - gan taw dyna oedd gwaith Ken. Darlledu - o'r tu ôl i'r camra wnaeth Ken ar hyd ei oes, ac mae'n siwr bod y chwilfrydedd cynnar wedi troi'n gariad at y byd darlledu. Er o glywed am yr hyn ddigwyddodd i Catrin yn sgîl treulio pythefnos, ie - yn gwneud 'profiad gwaith' yn y Beeb bondigrybwyll a hithau'n unarbymtheg oed - mae'n rhyfeddol ei bod wedi cael ei denu nôl i'r byd cystadleuol, digon amhleserus hwnnw! Wna i ond crybwyll y gair '*chic*'! Graddiodd o Brifysgol Aber, aeth ymlaen i wneud gradd bellach ym myd Newyddiaduraeth cyn dechrau ar ei gyrfa yn y byd darlledu. Bu'n teithio cryn dipyn, gweithiodd yn y gorllewin - ond dros y degawd diwethaf yma yn y biifddinas mae ei *base*.

Wrth edrych yn ôl dros ddeng mlynedd yn y byd darlledu mae Catrin wedi bod yn dyst i ddatblygiadau lawer. Merched yn cael chwarae teg ym myd *macho* y dynion. Yn cyflwyno rhaglenni chwaraeon, yn sylwebu, yn dadansoddi. Ei gobaith i'r dyfodol yw gweld tîmau cenedlaethol merched Cymru - rygbi a phêl-droedd yn cyrraedd rowndiau ola cystadlaethau cenedlaethol. Mae'r gefnogaeth yno! Diolch o galon Catrin am b'nawn arbennig iawn!

Bydd ein cyfarfod nesa - p'nawn **Mercher, 23ain o Hydref** - am **ddau** - yn y **Clwb Rygbi, Pentyrch** - a'n gwestai fydd **Osian Rowlands**, prifweithredwr Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Dewch yn llu!

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):
Mis Hydref:
6 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn
13 - Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul
20 – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards
27 - Oedfa Sul Adferiad - Wynford Ellis Owen

Mis Tachwedd:
3 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn
10 – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones
17 – Oedfa dan ofal Glenys ac Anthony Evans
24 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Wyn Samuel

---oooOOOooo---

Bu'r hanes diweddar ar Cymru Fyw, dan y pennawd "*Camu o'r pulpud i'r llwyfan stand-up*", yn sbardun i aelodau ardal Pentyrch, wrth iddynt baratoi yr oedfa* ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, ar fore Sul yr 22ain o Fedi.

Ffrwyth sgwrs y Canon Ddoctor Manon Ceridwen James ar raglen Bore Cothi ar BBC Radio Cymru oedd yr hanes, gan ymhelaethu fel a ganlyn:-

Mae deon gyda'r Eglwys yng Nghymru wedi dechrau cyfathrebu gyda chynulleidfa go wahanol i'r arfer wedi i'r Canon Ddoctor Manon Ceridwen James ddechrau perfformio fel digrifwr mewn nosweithiau stand-yp...Mae hi'n cyfadde' serch hynny bod yr hyn "fedrwch chi ddeud mewn bar yn wahanol i be' fedrwch chi ddweud mewn eglwys."

Ar ôl bod yn pregethu am ryw 30 mlynedd fe wnaeth ei tharo hi pa mor debyg oedd rhai o sgiliau y stand-yp o'i gymharu â gweinidogion..."O'n i'n meddwl mae 'na bethau 'da ni fel pregethwyr yn gallu dysgu ganddyn nhw. Dwi'n sbïo ar y comedïwyr 'ma yn medru dal sylw y bobl am ryw awr, awr a hanner.

Dwi'n meddwl os 'da chi'n chi'ch hun ac yn rhannu gwirioneddau eich bywyd chi mewn ffordd ddoniol, dwi'n teimlo bod pregethu a chomedi yn sôn am wirioneddau bywyd i ryw raddau."

Er bod yna rai pethau i'w dysgu gan gomediwyr, mae hi hefyd yn nodi'r gwahaniaethau sy'n bod rhwng gwneud stand-yp a phregethu o'r pulpud.

"Efo pregethu dwi'n sgwennu pob gair i lawr a dwi'n meddwl am yr union eiriau rwyf am ddefnyddio - dyna sy'n anodd efo stand-yp, 'da chi'n methu defnyddio sgript.

Dwi ddim yn meddwl fod fy mhregethau fel y rhan fwyaf o bobl yn rhai 'laugh out loud' ond mae yna rhai pobl sydd yn dda iawn am bethau fel 'na - yn ddoniol felly."

Mae'r erthygl yn cloi trwy nodi bod y Canon James bellach "yng ngofal hyfforddiant cychwynnol i weinidogion yn Athrofa Pedr Sant yng Nghaerdydd."

Fel y soniais yn y rhifyn diwethaf o'r Tafod, bum innau'n ddiweddar yn pori yn rhifyn 4ydd o Awst 1893 o "Y Tyst", ac un o'r erthyglau yno oedd adroddiad dan y pennawd "Adlais y Cymanfaoedd".

"…cyfeiriwyd at y ffaith fod nifer o bregethwyr yn andwyo eu hunain i fesur drwy ddiffyg barn neu ddiffyg chwaeth. Nid y peth elwir yn dalent yn unig sydd eisiau yn y pulpud mwy nag mewn unrhyw gylch arall. Yn wir, y mae yr hyn a ystyrir yn gyffredin yn dalent, os heb y peth a elwir yn synnwyr cyffredin hefyd, yn elfen beryglus iawn…

"…gallwn nodi hefyd y bri gormodol sydd yn cael ei roddi ar ddonioldeb… Un o'r pethau sydd yn darostwng ein gweinidogaeth yng nghyfrif rhai ydyw y gorawydd sydd am fod yn ddoniol, heb ofal cyfartal am genadwri briodol… Y mae i arabedd a ffraethineb eu lle yn y pwlpud, a gallant fod o wasanaeth mawr ond eu cael yn eu dognau priodol.

Ymgais aflwyddiannus i fod yn *witty* a *humourous* yw y methiant truenusaf o'r oll, ac nid yw gymaint felly yn un man ag yn y pulpud."

Diddorol oedd cyferbynnu'r erthygl uchod yn Y Tyst gydag un o ysgrifau cyn-weinidog Bethlehem yn y gyfrol "Ysgub o'r Wisgon", a gyhoeddwyd ychydig dros ganrif yn ddiweddarach gan Wasg Carreg Gwalch yn 1996 – cyfrol gyda llaw a gyflwynwyd gan yr awdur *"...i Fethlehem, Gwaelod-y-garth am iddynt roi ail wynt i mi"*.

Dan y teitl "God's Frozen People!" cawn ei hanes yn yr Unol Daleithiau yn 1987, tra'n casglu deunydd ar gyfer y gyfrol yr oedd yn ei pharatoi ar Paul Robeson.

"*Ces wahoddiad i bregethu gyda'r Bedyddwyr yn Harlem, eglwys y bu brawd Robeson, sef Ben, yn weinidog arni am gyfnod maith. Yno hefyd y bu gwasanaeth angladdol Paul. Cynulleidfa fawr. Rhyw dair mil, mae'n debyg.*

Un oedfa'r Sul sy' yno fel arfer; ond y prynhawn hwnnw Roeddent yn agor organ newydd. Rhyfeddod o offeryn. Gwahoddwyd esgob o'r eglwys Wesleaidd i bregethu. Heb os dyna'r bregeth ddoniolaf glywais i erioed. 'Roedd y pum mil yn rowlio chwerthin ar dro, ac yna'n fedrus iawn yn newid o'r llon i'r lleddf.

"Pan own yn grwt" meddai "roen ni arfer dawnsio lot yn y gwasanaeth. Smo ni'n gneud hynny yn awr."

"Nag ydyn…nag ydyn," atebodd y dorf bron ag unllais.

"Wyddoch chi pam y peidiodd y dawnsio?"

"Be ddigwyddodd? Dwedwch wrtho ni, Esgob?"

"O Fe wedai wrthoch chi. Er mwyn dangos ei anfodlonrwydd fe drawodd yr Arglwydd ni â gwynegon. Wedi'n cloi ni lan."

Wel, os do fe, dyma hen ac ifanc, anystwyth ac ystwyth yn ceisio codi, gallech glywed cymalau clo yn ddatgloi, y cyfan er mwyn profi nad oedd yr Arglwydd wedi eu cosbi nhw.

Parhaodd hyn am ryw ddeg munud. Yna wedi iddyn nhw iste a chael ei gwynt atynt, dyma fe'n dweud:

"Wrth fynd o amgylch yr eglwysi mi fydda i'n sylwi mai'r darn o'r corff y gwneir mwyaf o ddefnydd ohono yng ngwasanaeth yr Arglwydd yw'r darn yr ydych chi'n digwydd eistedd arno. Smo i'n gwybod ble yn y Beibl y cewch chi adnod sy'n dweud mai felly y dylai fod."

"Beth pe bai wedi dod i Gymru?" hola'r awdur.

"Y drasiedi sydd wedi digwydd yw bod hwyl a sbort a chwerthin wedi mynd mas o grefydd a chrefydda. Peth caled yw e bellach.

Aeth hwyl a chwerthin yn bethau dimygedig. Anghofiwyd mai un o'r grasusau pwysicaf yw hiwmor, a bod cael llond bol o chwerthin yn adnewyddiad i lawer "enaid blin lluddedig".

Pam ychwanegu at feichiau pobl trwy fod yn drwm, sych a chaled?"

Diddorol nodi, trwy gymorth "Ap Beibl", mai dim ond 11 enghraifft o'r gair "chwerthin" sydd ym Meibl William Morgan (un yn unig yn y Testament Newydd); mae pethau wedi gwella peth ers dyfodiad Beibl.net, gan i'r cyfanswm neidio i 47 "chwerthiniad", gyda 7 ohonynt yn y Testament Newydd!

Wn i ddim a ydych chwi ddarllenwyr yn ffafrio meddylfryd 1893 neu 1996, ond mi fyddwn i wrth fy modd yn cael gwybod a oes Sul sbâr gan y Canon Ddoctor Manon Ceridwen James yn ei dyddiadur, fel y gallwn ei gwahodd i Fethlehem, Gwaelod-y-garth i gadw oed!

(* mae'r oedfa gyfan ar gael ar https://youtu.be/EwT6B2RTeZ4 [Ctrl + Clic])

Newyddion cyntaf
Ysgol Awel Taf, Pontypridd

Ar agor!
Bore dydd Mercher Medi'r 4ydd 2024, agorodd Ysgol Awel Taf ei drysau i'r disgyblion am y tro cyntaf! Mae pawb wedi setlo mewn yn dda erbyn hyn ac yn mwynhau adnoddau gwych yr ysgol newydd a chreu ffrindiau newydd. Diolch i Martyn Geraint am ddod i ganu a dathlu gyda ni ac i gyflwyno can Ysgol Awel Taf i ni - rydym wrth ein boddau yn ei chanu!

Parti Pwll
Cafodd blwyddyn 5 a 6 amser gwych yn y Parti Pwll yn Lido Pontypridd. Diolch i Menter Iaith RhCT am drefnu hyn.

Opera
Aeth dau ddosbarth i ymweld a Chanolfan y Mileniwm i wylio opera 'Cyngerdd Ysgolion' gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru ym mis Medi. Am brofiad arbennig! Bydd y cwmni opera nawr yn dod i'n hysgol i gynnal gweithdai i'r disgyblion. Maent yn edrych ymlaen at hyn!

Gwasanaeth
Diolch i Mr Coleman a Doug y ci am ddod i gynnal gwasanaeth i'r ysgol gyfan. Roedd y neges yn un bwysig a mae pawb yn edrych ymlaen at weld Doug eto cyn bo hir!

Bore Coffi
Cynhaliwyd Bore Coffi MacMillan cyntaf Ysgol Awel Taf ar ddiwedd mis Medi. Roedd hi'n braf cael cymaint yn ymweld a chymdeithasu yn y neuadd. Diolch i flwyddyn 6 am drefnu a chynnal y bore coffi ac i bawb a ddaeth i gefnogi a chodi arian i'r achos da.

O'r Senedd
Heledd Fychan A.S.

Heb os, bu Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd ym Mharc Ynysangharad yn ddiweddar yn llwyddiant ysgubol, gyda llawer o bobl yn dweud mai hon oedd yr Eisteddfod orau erioed. Rwy'n cytuno!

Chwaraeodd cymaint o bobl o bob rhan o'r sir ran allweddol yn hyn, o godi arian i baratoi baneri ac arwyddion, gwirfoddoli yn ystod yr wythnos, cynnal digwyddiadau, sicrhau bod cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn gweithio'n effeithlon, yn ogystal â hyrwyddo popeth sydd gan Rhondda Cynon Taf i'w gynnig. Hoffwn ddweud diolch enfawr i bob un ohonynt. Roedd yn ymdrech gymunedol, a gallwn ni i gyd fod yn falch o'r wythnos a gafwyd.

Yn bersonol, roeddwn i wrth fy modd gweld Pontypridd mor brysur gyda chaffis, bariau a bwytai hyd yn oed yn rhedeg allan o fwyd ar adegau! Hyfryd hefyd oedd clywed cymaint o bobl sy'n gwybod dim Cymraeg, neu sy'n dysgu, yn mwynhau popeth oedd gan yr Eisteddfod i'w gynnig, gan brofi bod yr iaith yn perthyn i bob un ohonom yma yng Nghymru, p'un a ydym yn ei siarad ai peidio.

Hyfryd hefyd oedd gweld cymaint o bobl yn perfformio yn ystod yr wythnos, yn ogystal â gweld cymaint o bobl leol yn ennill, megis Gwynfor Dafydd o Donyrefail a enillodd y goron, Eurgain Haf o Bontypridd a enillodd y fedal ryddiaith a Nathan James Dearden o Donyrefail a enillodd Tlws y Cyfansoddwr. Mae RhCT yn amlwg yn sir sy'n llawn doniau!

Gyda chymaint o bobl bellach yn canmol Rhondda Cynon Taf, a hefyd yn frwd dros y Gymraeg, pa gamau sy'n rhaid eu cymryd nawr i sicrhau etifeddiaeth barhaol?

Dro ar ol tro, clywais bobl yn mynegi syndod pa mor hawdd oedd hi i gyrraedd Pontypridd, gyda llawer yn addo dychwelyd i ymweld â'r farchnad, cael pryd o fwyd, mynychu digwyddiad yn YMa neu'r Miwni, neu fwynhau'r Lido. Dywedodd llawer hefyd eu bod bellach am grwydro gweddill y sir, ar ôl dysgu am yr hyn a gynigir trwy'r eisteddfod. Rhaid inni felly barhau i adeiladu ar ein harlwy twristiaeth, a pharhau i hyrwyddo'r cynnig diwylliannol a threftadaeth, yn ogystal â busnesau lleol.

O ran yr iaith, rhaid parhau i fuddsoddi mewn addysg Gymraeg, cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddysgu ac ymarfer y Gymraeg i bobl o bob oed, a hefyd yn hollbwysig, digwyddiadau Cymraeg sy'n agored i bawb, ond sy'n rhoi cyfle i bobl gael hwyl a mwynhau eu hunain fel bod y Gymraeg yn parhau i gael ei gweld fel iaith fyw.

Parhad tudalen 15 >

Ysgol Llanhari

Dathlu Canlyniadau ardderchog Safon Uwch yn Ysgol Llanhari

Braf iawn oedd dathlu canlyniadau ardderchog Safon Uwch unwaith eto eleni yn Ysgol Llanhari lle llwyddodd 97% o'r disgyblion i ennill dau neu fwy o gymhwysterau Safon Uwch, gan wella mewn sawl agwedd ar ganlyniadau y llynedd. Roedd 24% o'r holl raddau a enillwyd gan y disgyblion yn raddau A*-A ac rydym yn hynod o falch bod 74% o'r graddau a enillwyd yn A*-C. Yn arwain y ffordd eleni, gyda'r tri yn cyrraedd yr uchelfannau â 3 neu fwy o raddau A*-A mae Anton Thomas, Arianwen Thomas a Megan Jenkins, sydd ar ei ffordd i astudio Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Rhydychen. Dathlwn lwyddiant yr holl ddisgyblion sydd wedi cyrraedd eu potensial ac sydd wedi gweithio yn ddygn a chael eu haeddiant. Mae'r disgyblion wedi rhagori wrth ddilyn cyrsiau traddodiadol academaidd yn ogystal â phynciau galwedigaethol yn y chweched. Llongyfarchiadau i'r holl athrawon a disgyblion a dymunwn yn dda i'r bobl ifanc a fydd yn cychwyn ar fyd gwaith neu yn parhau â'u hastudiaethau mewn prifysgolion neu golegau ymhob cwr o'r wlad.

Wrth ein bodd gyda chanlyniadau TGAU ardderchog blwyddyn 11 yn Ysgol Llanhari

Wythnos yn ddiweddarach, bu'n rhaid dathlu eto yn Llanhari! Cyhoeddwyd canlyniadau TGAU arbennig yr wythnos hon ac unwaith eto eleni, penllanw dwy flynedd o lafur caled a dyfalbarhad gan ddisgyblion a staff yw'r canlyniadau TGAU. Mae'r canlyniadau yma yn adeiladu ar sylfaen a osodwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Testun balchder arbennig yw'r ffaith bod 100% o'r disgyblion wedi llwyddo i ennill 5 neu fwy o raddau A*-G ac o 'rheiny mae 82% wedi llwyddo i ennill 5 neu fwy o raddau A*-C, gyda 21% o'r garfan yn ennill 5 neu fwy o raddau A*-A. Prin oedd yr wynebau siomedig wrth inni fel ysgol ddathlu blwyddyn arall o ganlyniadau ardderchog lle llwyddodd disgyblion ar draws yr ystod gallu i gyrraedd eu nodau personol, gan amlygu ymroddiad arbennig i'w hastudiaethau. Dathlwn fel staff a rhieni bod y disgyblion wedi gwireddu eu potensial ac rydym yn falch iawn bod nifer fawr ohonynt belalch yn aelodau o'n chweched dosbarth ffynniannus. Llongyfarchiadau gwresog i chi gyd!

Eisteddfod Rhondda Cynon Taf

Cawsom wythnos wych yn yr Eisteddfod ac er bod rhai misoedd bellach ers troedio llwybrau parc Ynys Angharad, mae'r atgofion yn dal i lifo a'r profiadau yn dal yn fyw. Gwych oedd gweld cynifer o deuluoedd yr ysgol, yn Gymry Cymraeg a Chymry di-Gymraeg yn mwynhau'r wyl ac yn cyfranogi o'n diwyllaint unigryw. Bu'r disgyblion ar draws yr ystod oed (ac ambell aelod o staff) yn hynod brysur yn perfformio, yn cymryd rhan mewn seermoniau, yn sgwrsio ac yn cefnogi. Roeddem wrth ein bodd bod teilyngdod yng nghystadleuaeth y Gadair a bod y gadair oedd yn rhoddedig gan Deulu Llanhari bellach yn ddiogel yng nghartref Carwyn Eckley yng Nghaerdydd. Gwych oedd cael y cyfle i ddathlu llwyddiant cyn-ddisgybl, sef Gwynfor Dafydd o Donyrefail yn ennill y Goron ar y Dydd Llun ac estynwn ein llongyfarchiadau gwresog iddo yntau.

Catrin Heledd a Sara Esyllt fu'n hel atgofion gyda Geraint Rees, Peter Griffiths a Luke Fletcher A.S.

Parhad tudalen 15 >

Ysgol Llanhari (Parhad)

Cafwyd cyfle yn ystod yr wythnos i rannu pabell gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill Rhondda Cynon Taf ac un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd y cydweithio nodedig yma, ynghyd â'r cyfle i groesawu cymaint o ffrindiau'r ysgol i'n pabell ar y maes. Cynhaliwyd ambell ddigwyddiad cofiadwy i lawnsio'n dathliadau deugain mlynedd fel ysgol ac edrychwn ymlaen at fwy i ddod! Wythnos arbennig fu hi ac wythnos i ysbrydoli a thanio brwdfrydedd dros y Gymraeg yn ein hardal.

Gwyddoniaeth ym Mhontypridd

Roedd yn braf gweld y bwrlwm yn y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mawr ddiolch i'r is-bwyllgor lleol. Cafwyd sawl cyflwyniad/anerchiad diddorol yn y Sfferen ac ymateb brwd i'r heriau yn y Lloeren. At hyn, trefnwyd sesiynau yn Calon Taf, y ganolfan barhaol yn y Parc. Bu Ifan Hughes yn y Sfferen yn cyfeirio at ymchwil ddiweddar ym maes Cyfrifiadura Cwantwm a Rowland Wynne yn Calon Taf yn talu teyrnged i Dai Edwards (o Bontypridd), arloesydd cyfrifiadureg 'gyffredin'. Sôn am newid! Yn yr un sesiwn bu Rowland yn rhannu ychydig o hanes Tudor Jenkins o Dreherbert a'i waith ffiseg yn Aberystwyth. Yn y sesiwn hwn, heb baratoi ymlaen llaw, roedd yn hyfryd iawn cael atgofion Bethan Jenkins am ei diweddar dad oedd yn gymeriad bywiog ac amlweddog. Bu Alan Shore yn sôn am waith Laurence Eaves (Porth), ffisegydd o fri. Rhannodd Rowland Wynne ei sylwadau yn dilyn gwylio'r ffilm Oppenheimer a chyfeirio at yr athlylith Evan James Williams (Cwmsychpant). Bu Rhys Morris yn y Sfferen yn bwrw golwg dros hynt Telesgop James Webb a Neville Evans yn rhannu hanes rhai GwMPaThiaid (STEM-ists) RhCT. Traddodwyd y Ddarlith Flynyddol gan Rhodri Jones (CERN) yn disgrifio hanes a hynt yr 'arbrawf' rhyfeddol (LHC/GwHaMa) y bu Lyn Rees (Aberdâr) yn gyfarwyddwr arno ar un adeg. Gwledd yn wir a sawl testun trafod.

O'r Senedd
Heledd Fychan A.S. (parhad)

Mae llefydd fel Clwb y Bont, yr Hen Lyfrgell yn y Porth a'r Lion yn Nhreorci i gyd yn chwarae rhan hollbwysig yn hyn, a gobeithio y bydd pobl yn parhau i'w cefnogi. Mae ein corau hefyd yn cynnig cyfleoedd i berfformio yn y Gymraeg, ac os teimlwch wedi'ch ysbrydoli i ymuno ag un ar ôl yr Eisteddfod, rwy'n siŵr y cewch eich croesawu â breichiau agored!

Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn chwarae rhan hollbwysig wrth hyrwyddo'r iaith, a darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio pa bynnag Gymraeg sydd ganddynt. Mae'r tîm yn perfformio gwyrthiau, gyda chyllideb fach iawn, ond gyda chefnogaeth, gallant chwarae rhan ganolog wrth adeiladu ar lwyddiant yr Eisteddfod. Maent hefyd yn gyfrifol am drefnu Parti Ponty, ac mae angen inni sicrhau y cânt eu hariannu i drefnu un y flwyddyn nesaf, er mwyn i'r rhai a fwynhaodd yr eisteddfod gael cyfleoedd pellach i fwynhau digwyddiadau Cymraeg.

Mae'r rhain i gyd yn faterion y byddaf yn eu codi gyda Chyngor RhCT a Llywodraeth Cymru yn yr wythnosau nesaf, ac rwy'n siŵr y bydd gan lawer o rai eraill ar draws y sir eu syniadau eu hunain hefyd o ran sicrhau etifeddiaeth.

Os hoffech chi gysylltu am hyn, neu unrhyw fater arall, mae croeso i chi anfon e-bost ataf:
Heledd.Fychan@Senedd.Cymru

Mae fy nhîm a minnau yma i helpu.

acapela

acapela Pentyrch

Nos lau 17 Hydref
Ani Glass

Nos lau 31 Hydref
HMS Morris

Nos lau 28 Tachwedd
Pedair

acapela.co.uk

PONTYPRIDD

Gohebydd y Mis: Dilys Davies

Siaradwyr Newydd.
Braf dweud bo bore coffi i Siaradwyr Newydd wedi ail ddechrau ers Medi'r 5ed yn Amgueddfa Pontypridd o 10:30 i 11:30 bob bore Iau. Mae croeso i siaradwyr newydd ymuno gyda ni ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r gwirfoddolwyr rhugl sy'n dod i helpu

Merched y Wawr
Cawsom ein cyfarfod cyntaf y Tymor Newydd yng Nghlwb y Bont ar Fedi'r 12fed. Bu Eurgain Haf yn ein diddanu drwy ein tywys drwy ei phrofiad o ennill y Fedal Ryddiaeth gan hefyd roi hanes a chefndir ei llyfr 'Y Morfarch Arian'

Fe wnaeth ein haelodau wir fwynhau ein noson yn ei chwmni - Diolch Eurgain. Byddwn yn cyfarfod ar Hydref 10fed am 7:30yh yng Nghlwb y Bont croeso i chi ymuno gyda ni

Clwb Darllen
Rydym yn dal i gwrdd yn Llyfrgell Pontypridd am 10:30 ar y bore Mercher ar ôl noson MyW ar y nos Iau blaenorol. Croeso i chi ymuno gyda ni - byddai derbyn aelodau newydd yn hyfryd.

Kate
Cafwyd noson fendigedig yng Nghlwb y Bont Nos Iau Medi'r 19eg Cwmni Mewn Cymeriad yn cyflwyno Kate - sef hanes y llenor Kate Roberts. Sara Cracroft oedd yn actio Kate - cyflwyniad anhygoel a braf gweld Clwb y Bont dan ei sang.

Dathlu Llwyddiant yr Eisteddfod
Nos Wener Medi'r 20fed daeth pawb a oedd wedi bod yn brysur yn paratoi i'r Eisteddfod at ei gilydd i ddathlu llwyddiant ysgubol yr Eisteddfod nôl ar ddechrau mis Awst. Geraint Rees oedd llywydd y noson a gwnaeth yn wych gyda'i hiwmor arferol. Bu Cadeirydd ein Pwyllgor Gwaith Helen Prosser yn diolch

Ysgol Llantrisant

Croeso nôl
Croeso nôl i holl ddisgyblion a staff yr ysgol wedi'r gwyliau haf. Roedd yn hyfryd gweld y plant i gyd ar ddechrau'r mis ac mae pawb erbyn hyn wedi ymgartrefu yn eu dosbarthiadau newydd. Croeso enfawr hefyd i'n disgyblion newydd yn y dosbarth Meithrin.

Senedd yr ysgol
Llongyfarchiadau i bob disgybl o Flwyddyn 1 i 6 gafodd eu dewis i gynrychioli gwahanol bwyllgorau y Senedd. Fe wnaeth bob un ohonoch argraff dda iawn wrth drafod eich maniffesto o flaen y dosbarth. Llongyfarchiadau hefyd i Tal gafodd ei ethol fel Prif Weinidog y Senedd ac i Mali fydd yn Ddirprwy Brif Weinidog.

Eisteddfod Genedlaethol Rhomdda Cynon Taf
Ar y 14eg o Fehefin, aeth disgyblion bl6 i Lys Cadwyn ym Mhontypridd er mwyn gweld gwaith celf yr ysgol yn cael ei ddadorchuddio fel rhan o gystadleuaeth i bawb am eu gwaith diflino a cafwyd cyfle i ni gyd ddiolch iddi hi am ei brwdfrydedd heintus a'i hymroddiad anhygoel. Diolch o galon Helen.

Llongyfarchiadau i Tracey Reeves sy'n dathlu penblwydd nodedig ym mis Awst ac hefyd ar briodas ei merch.

Rebecca a'i gŵr Daniel

Croeso a phob dymuniadau da yn eu cartref newydd i Wil Rees a'i bartner Brooke. Maent wedi ymgartrefu yn Graigwen

Llongyfarchiadau i Non a Matt a'r bechgyn wrth symud i Tŷ Perllan Highfield Tce - ond ddim rhy bell oddi wrth mamgu a tadcu Harkin

'harddu' yr Eisteddfod Genedlaethol. Daeth gwaith celf yr ysgol gyfan yn gyntaf yn y gystadleuaeth ar gyfer ysgolion ardal Taf.

Chwaraeon

Mae Rosie o flwyddyn chwech yn serennu ym myd tenis Cymru. Mae hi wedi ennill sawl cystadleuaeth wrth gynrychioli Cymru o dan 10 oed. Yn ddiweddar ennillodd Rosie gystadleuaeth tenis pencampwriaeth Cymru yn ogystal ag ennill yr ail wobr yng nghystadleuaeth tenis y Deyrnas Unedig yn Swindon. Llongyfarchiadau enfawr i ti Rosie a phob lwc i ti wrth i ti gynrychioli Cymru yn y byd tenis dros y misoedd nesaf!

Llongyfarchiadau hefyd i Lois o flwyddyn 4 sydd wedi ennill y wobr gyntaf yn rownd gyntaf cystadleuaeth "CycloCross" Beicio Cymru o dan 10 oed. Pob lwc i ti Lois ar gyfer y cystadlaethau eraill sydd i ddod.

Eco-sgolion
Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus unwaith wrth i ni barhau i ddilyn y rhaglen Eco-sgolion. Yn ddiweddar adnewyddwyd y faner Platenwm am yr ail dro. Diolch yn fawr iawn i'r pwyllgor Dinasyddion Doeth am arwain yr yr holl weithgareddau Eco ar draws yr ysgol.

Menter Caerdydd

Gyda hanner tymor yn agosáu, mae criw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn brysur yn trefnu gweithgareddau i ddiddanu'r plant yn ystod y gwyliau. Cofiwch am ein cynllun Gofal yng Nghaerdydd ar gyfer y rhai sydd angen cymorth drwy'r dydd a'r sesiynau Bwrlwm, yn y brifddinas a'r Fro, sy'n cynnig ychydig oriau o hwyl yn rhad ac am ddim. Cewch fwy o fanylion ar ein gwefan.

Ond beth arall sydd ar y gweill yn ystod mis Hydref?

Diwrnod Shwmae Su'mae
Beth am drefnu bore coffi i nodi Diwrnod Shwmae Su'mae ar 15 Hydref? Mae adnoddau ar gael i'w lawrlwytho ar wefan shwmae.cymru gan gynnwys poster i hyrwyddo digwyddiadau, sticeri a swigod i'w lamineiddio a'u dal mewn lluniau. Nod y diwrnod yw dangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb!

Cynganeddu
Bydd y dosbarthiadau Cynganeddu yn ail-ddechrau nos Fawrth, 8 Hydref gydag Aron Pritchard wrth y llyw gyda'r criw profiadol a Gethin Wyn yn arwain y sesiynau i ddechreuwyr. Cynhelir y dosbarthiadau yng nghanolfan Chapter bob yn ail wythnos. Mae opsiwn i ymuno ar-lein hefyd yn y sesiwn i ddechreuwyr. Cost: £95 am 10 wythnos.

Hanes Cymru: Chwyldro Addysgiadol yng Nghymru
Ydych chi'n poeni bod pobl ifanc Cymru yn gadael yr ysgol yn gwybod mwy am yr Almaen Natsïaidd ac Unol Daleithiau America na'r hyn y maent yn ei wybod am eu gwlad eu hunain? Ymunwch â Dr Huw Griffiths mewn tair sesiwn Zoom, yn dechrau nos Lun, 7 Hydref, i glywed rhai o'i syniadau ar sut i drawsnewid y ffordd mae Hanes Cymru yn cael ei ddysgu yn ein hysgolion. **£12 am 3 sesiwn.**

Adolygu Mathemateg
Ydych chi'n ddi-hyder wrth ddefnyddio Mathemateg? Dewch i ymuno yn ein sesiynau anffurfiol, rhad ac am ddim, yn Llyfrgell Treganna. Cyfle i adolygu sgiliau TGAU neu wella eich sgiliau Mathemateg ar gyfer y byd gwaith mewn awyrgylch groesawgar. **Yn parhau ar brynhawniau Mercher am 4.30. Am ddim.**

Sgwrs y Mis
Y Parchedig Athro Densil Morgan fydd yn ymuno â ni ar Zoom nos Lun, 28 Hydref i drafod ei gyfrol ar waith y pregethwr Emrys ap Iwan (1848–1906), un o dadau cenedlaetholdeb modern. Yn ystod y sgwrs cawn ddysgu mwy am y gyfrol, Gras, Gobaith a Gogoniant, a chlywed am wreiddioldeb gwaith Emrys a'i berthnasedd i'r Gymru gyfoes. **Am ddim.**

Siaradwyr Newydd
Cofiwch am y grŵp sgwrsio newydd yn Hyb Rhydypennau bob yn ail fore dydd Iau. (10 a 24 Hydref, 10.30). Mae criw arall yn cwrdd yn y Llyfrgell Ganolog, brynhawn Iau cynta'r mis am 3.00. Mae'r Bore Coffi ar Zoom yn parhau bob bore Gwener ola'r mis am 10.30. **Am ddim.**

Ffitrwydd gyda Ffrindiau 75+
Mae llefydd ar gael yn ein sesiynau ffitrwydd rhad ac am ddim yng nghwmni Anna Reich. Mae'r grŵp yn cwrdd bob yn ail ddydd Gwener yng Ngerddi Soffia. Mae'r dosbarth yn cael ei redeg mewn partneriaeth â'r elusen Re-engage. Cysylltwch â Rachel am fwy o fanylion.

Plant a Theuluoedd

Amser Stori – mae sesiynau Caerdydd wedi ail-ddechrau a'r manylion i'w gweld ar ein gwefan.

Bygi Heini - dydy hi ddim yn rhy hwyr i famau newydd gofrestru ar gyfer ein sesiynau ffitrwydd, Bygi Heini, a gynhelir bob bore Iau ar gaeau Pontcanna. (£26 am 4 sesiwn)

Ioga i Blant – mae clwb newydd yn dechrau i blant mewn blynyddoedd 2 i 5 ar brynhawn Mawrth, 8 Hydref yn Llyfrgell Treganna. (£36 am 6 wythnos)

Cadwch y dyddiad!
Mae Menter Iaith Bro Morgannwg yn trefnu cyngerdd o gerddoriaeth glasurol ym Mhafiliwn Penarth, nos Sadwrn, 16 Tachwedd. Mae'r tocynnau ar gael ar y wefan am £15. https://menterbromorgannwg.cymru/

Am fwy o fanylion am weithgareddau Menter Caerdydd ar gyfer oedolion, ewch i: https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion
Ar gyfer gweithgareddau i blant, ewch i: https://mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc
Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: @m.caerdydd
Instagram: @mentercaerdydd
E-bost: post@mentercaerdydd.cymru /Ffôn: 029 2068 9888

Ysgol Creigiau

Prynhawn Cwrdd a Chyfarch
Diolch yn fawr i'n teuluoedd am ddod i'n diwrnod 'Cwrdd a Chyfarch' brynhawn Gwener, 20fed Medi. Cawsant gyfle i gwrdd ag athro/athrawes newydd eu plentyn, cwrdd â staff eraill sy'n gweithio yn y dosbarth, gweld ystafell ddosbarth newydd eu plentyn a phrofi gweithgareddau y mae'r disgyblion eisoes wedi ymgysylltu â nhw. Roedd y disgyblion wedi mwynhau cael eu teuluoedd a'u ffrindiau'n ymweld â'u dosbarth! Cynhaliodd Cyfeillion Ysgol Creigiau Arwerthiant Cacennau llwyddiannus yn ystod y prynhawn hefyd – trît hyfryd i bawb a r diwedd wythnos!

Ymweliad Adam Colman
Yn ystod trydedd wythnos y tymor newydd daeth Adam Colman, Menter Ysgolion Cymraeg, i'r ysgol i gyflwyno gwasanaeth i ddisgyblion yr Adran Gymraeg. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando ar ei straeon. Diolch Mr Colman.

Seiclo i Ddisgyblion Blwyddyn 6
Yn ddiweddar mae disgyblion Dosbarth 6 a Class 6 wedi derbyn gwersi seiclo gan swyddogion diogelwch y ffordd Cyngor Caerdydd. Dysgon nhw reolau'r ffordd fawr a sut i ofalu am eu beiciau. Mwynheuon nhw'r profiad yn fawr.

Llangrannog
Croeso nôl i ddisgyblion Dosbarth 6 wedi iddynt dreulio wythnos yn y Gwersyll ger y lli! Roedd pob un wedi mwynhau'r antur yn fawr iawn ac wedi dangos ymddygiad ac agwedd arbennig drwy gydol yr amser. Da iawn chi blant! Diolch yn fawr iawn i Miss Watkins, Mr Williams, Mrs Willis a Miss Davies am fynd gyda'r disgyblion.

Gwobr Aur Ysgolion Sy'n Parchu Hawliau
Ar y 18fed Mehefin cyfarfu Stuart Whiffin, Cynghorydd Proffesiynol Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, â llawer o'n disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr i asesu ein gwaith tuag at Wobr Aur Parchu Hawliau. Dros wyliau'r haf, cawsom wybod yn swyddogol fod Ysgol Gynradd Creigiau wedi derbyn Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau AUR UNICEF. Rydym yn hynod falch o'r llwyddiant hwn. Mae'r Wobr hon yn cydnabod llwyddiant trwy roi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wraidd cynllunio, polisïau a dulliau'r ysgol. Mae Ysgol sy'n Parchu Hawliau yn gymuned lle mae hawliau plant yn cael eu dysgu, eu haddysgu, eu hymarfer, eu parchu, eu diogelu a'u hyrwyddo. Diolch i Ms Griffin am arwain ar Hawliau Plant yn yr ysgol, y disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr am eu holl waith caled a'u cefnogaeth i ennill y Wobr Aur. Gwaith tîm ardderchog!

Pwyllgorau'r Ysgol
Mae pob un o'n disgyblion CA2 wedi cael y cyfle, os dymunant, i gynrychioli eu dosbarth ar un o'n pwyllgorau ysgol eleni. Cawsom lawer o bosteri a llythyron ardderchog - da iawn bawb! Bydd ein pwyllgorau Siarter Iaith, Criw Cymraeg, Lles, Cyngor Ysgol a Pharchu Hawliau, Eco a SNAG yn cyfarfod bob dydd Mawrth.

CAVMS
Yn ddiweddar cafodd disgyblion CA2 gyfle i wrando ar amrywiaeth o offerynnau cerdd yn cael eu canu. Mae CAVMS (Cardiff and the Vale Music Service) yn cynnig gwersi offerynnol i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2. Cynigir gwersi gitâr, llinynnol, pres, piano, chwythbrennau a drymiau. Cynigir gwersi telyn a phiano hefyd gan Mrs Lois Davies.

Ymweliad Blwyddyn 5 â Chastell Caerdydd
Aeth disgyblion Dosbarth 5 a Class 5 ar ymweliad â Chastell Caerdydd i gymryd rhan mewn gweithdy Ail Ryfel Byd ac i brofi y llochesi cyrch awyr sydd yn waliau'r castell. Diolch i'r Warden Cyrch Awyr, Mark, ac i'r staff eraill am ddod â hanes yn fyw i'n disgyblion. Mwynheuodd pob un y profiad.

Dosbarth 5 yn mwynhau yng Nghastell Caerdydd

Dosbarth 6 yn mwynhau seiclo ar ffyrdd Creigiau

Dosbarth 6 yn mwynhau yn Llangrannog

Mr Colman yn didddanu'r disgyblion

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Masnach Deg
Fel rhan o ddathliadau pythefnos Masnach Deg bu disgyblion yr ysgol yn brysu'r iawn yn dysgu am yr hyn sydd yn cael ei werthu yn y siopau ac ym mha wledydd mae'r bwydydd hyn yn cael eu tyfu. Aeth aelodau'r Cyngor Ysgol ar ymweliad i archfarchnad Co-op yn Nhonyrefail i siopa am gynnyrch Masnach Deg i'w blasu yn yr ysgol. Diolch yn fawr i holl staff y Co-op am y croeso cynnes ac am eu haelioni. Roedd disgyblion Blwyddyn 3 -6 wedi mwynhau blasu'r cynnyrch a'u cymharu a chynnyrch oedd ddim yn gynnyrch Masnach Deg.

Y Cyngor Ysgol yn siopa am gynyrch Masnach Deg yn y Co-op

Blasu Bwyddydd Masnach Deg

Eisteddfod Genedlaethol
Hyfryd oedd gweld cyn gymaint o ddisgyblion yr ysgol yn mwynhau yr arlwy ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Ynys Angharad. Roeddynt wrth eu boddau gyda'r holl weithgareddau oedd ar gael. Roedd pabell Ysgolion Cymraeg Rhondda Cynon Taf yn hynod boblogaidd a braf oedd gallu rhannu, gyda chynulleidfa eang, yr hyn sydd gan addysg Gymraeg i'w gynnig i'n disgyblion. Diolch yn fawr iawn i Helen Prosser is-gadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol am ei gwaith diflino yn hyrwyddo'r eisteddfod yn y gymuned a chefnogi llu dirifedi o ddigwyddiadau ar draws y sir i godi arian.

Aelodau'r Cyngor Ysgol

Y Cyngor Ysgol yn trafod syniadau

Cyngor Ysgol
Cynhaliwyd etholiadau'r Cyngor Ysgol yn ddiweddar a braf oedd gweld cyn gymaint o ddisgyblion yn ymgeisio. Mae'r aelodau wedi bod wrthi yn brysur yn meddwl am syniadau o'r hyn y maent eisiau gyflawni eleni.

Y Babell Lên
Braint oedd bod yn y agoriad swyddogol y Babell Lên ar ddydd Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod ble roedd cynrychiolaeth o ysgolion Cymraeg y sir yn darllen cerdd gan Elinor Wyn Reynolds. Roedd y gerdd wedi ei hysbrydoli yn dilyn gweithdai disgyblion Blwyddyn 6. Diolch yn arbennig i Alyssa am gynrychioli'r ysgol mor arbennig.

Alyssa gyda Elinor Wyn Reynolds

Llwyddiant Gwynfor Dafydd
Llongyfarchiadau gwresog i Gwynfor Dafydd ar ennill coron yr Eisteddfod Genedlaethol ar ei domen ei hun. Mae pawb yn nheulu YGG Tonyrefail yn ymfalchïo yn ei gamp arbennig ac yn edrych ymlaen i'w groesawu i'r ysgol. Mae'r pawb yn gyffrous i gael gweld y goron!

Cylch Meithrin Cwm Elai
Llongyfarchiadau i'r cylch ar ddod yn drydedd yng nghystadleuaeth y Mudiad Meithrin sef llunio baner yn dangos hanes yr ardal leol.

Dathlu Diwrnod Owain Glyndŵr
Cynhaliwyd nifer o weithgareddau amrywiol fel rhan o ddathliadau Diwrnod Owain Glyndŵr Roedd y plant wedi mwynhau gwylio fideos 'Mewn Cymeriad' i ddysgu hanes yr arwr cenedlaethol.

Clybiau
Mae dewis eang o glybiau ar ôl ysgol i'r plant eto eleni gan gynnwys: clybiau celf, gemau, pêl rwyd a'r Urdd ar gyfer disgyblion Cam Cynnydd 2 a 3. Diolch yn fawr i ddisgyblion o Ysgol Llanhari am wirfoddoli i helpu disgyblion Blwyddyn 6 i arwain y clwb pêl rwyd.

Clwb Pêl Rwyd

Cynghrair Newydd - Sialens Newydd

Wedi haf hir o baratoi ac o roi carfan newydd ei gwedd yn ei lle, mae'r tymor cystadleuol wedi cychwyn i Glwb Rygbi Pontypridd. Wedi'r ail-strwythuro o'r gêm gymunedol yng Nghymru ers y tymor diwethaf, mae Ponty wedi cymryd eu lle yn Uwch-adran Admiral, gan droi dalen newydd yn hanes y clwb a mentro i dir anghyfarwydd i raddau healeth.

Bargoed oedd yr ymwelwyr ar Heol Sardis ar gyfer gornest agoriadol y tymor newydd ar ddydd Sadwrn y 14eg o Fedi – doedd dim gêm gan Bontypridd ar y penwythnos blaenorol fel y tîm dros ben o'r tri-ar-ddeg sydd yn yr Uwch-adran.

Roedd Bargoed yn bencampwyr dwbwl cynghrair a chwpan y Bencampwriaeth y tymor diwethaf ac yn dod a charfan gref a phrofiadol i herio Pontypridd, a gwireddwyd eu bygythiad wrth iddynt fynd 14 pwynt ar y blaen yn gynnar yn y gêm. Dyfal donc oedd hi o ran Pontypridd wrth i'r tîm cartref frwydro nol i ddod yn gyfartal ar yr egwyl yna tynnu'n glir yn yr ail hanner i hawlio buddugoliaeth pwynt bonws gwerthfawr o 34 pwynt i 19.

Ponty yn herio Bargoed ar Heol Sardis

Y Sadwrn canlynol, y 21ain o Fedi, teithiodd Pontypridd tua'r gorllewin i wynebu Llangennech ar lan afon Llwchwr – clwb nad oeddent fyth wedi ei chwarae o'r blaen, gan amlygu newydd -deb yr Uwch-adran newydd ei gwedd. Brwydr galed fu hon a'r canlyniad yn y fantol tan yr eiliadau olaf wrth i Bontypridd amddiffyn eu mantais un pwynt, o 13 - 14 tan y chwiban olaf. Roedd gan Llangennech nifer o chwaraewyr profiadol fu gynt yn cynrychioli Cwins Caerfyrddin a Llanelli, gan brofi'n wrthwynebwyr lletchwith i Bontypridd, a hon y math o gêm, yn ôl y chwaraewr-hyfforddwr Kristian Parker, y byddai Ponty wedi ei cholli y tymor blaenorol.

Trecelyn oedd yr ymwelwyr ar Heol Sardis ar gyfer gornest olaf mis cyntaf y tymor newydd ar yr 28ain o Fedi. Sicrhaodd Ponty eu trydedd buddugoliaeth o'r bron gan ennill o 22 pwynt i 0 mewn gêm ddigyfaddawd lle roedd amddiffyn cadarn y tîm cartref yr un mor bwysig a'u hymosod, gan sgorio tri chais a chadw'r ymwelwyr o Went rhag croesi'r gwyngalch.

Pontypridd, ynghyd a Merthyr, yw'r unig ddau dîm i gynnal record 100% cyn belled yn yr Uwch-gynghrair, gyda Ponty ar ddiwedd mis Medi yn ail yn y tabl. Bydd dwy gêm gynghrair gan Ponty yn ystod mis Hydref, gartref yn erbyn Narberth ar ddydd Sadwrn y 12fed ac oddi cartref yn erbyn Met Caerdydd ar y 19eg.

I gadw golwg ar hynt a helynt y 'Valley Commandos' galwch mewn i wefan CR Pontypridd www.ponty.net neu ar y safleodd cymdeithasol @pontypriddrfc

Cefnogwch 'Diwrnod Siwmper Nadolig'

Mae Shaun the Sheep am annog ysgolion a grwpiau ieuenctid i gymryd rhan yn Niwrnod Siwmper Nadolig Achub y Plant.

Eleni mae Shaun the Sheep yn camu i garnau newydd gyda'r gobaith o annog ysgolion a grwpiau ieuenctid ledled Cymru i gofrestru a chymryd rhan yn 'Diwrnod Siwmper Nadolig' ar ddydd Iau 12fed Rhagfyr.

Fel 'Pennaeth Gwlân' newydd yr elusen, mae Shaun wedi ymuno gyda chorlan Achub y Plant i ddod â gwên i'r byd mewn siwmper glyd, ac mae am i blant ac athrawon a busnesau ledled eich bro ymuno â'i ddiadell.

Ac mae'r gofynion yn syml:
Cofrestrwch i dderbyn eich pecyn codi arian rhad ac am ddim drwy glicio ar y wedudalen: ChristmasJumperDay.org

Ewch i chwilio am eich siwmper. Does dim rhaid prynu un newydd – rhowch fywyd newydd i hen siwmper gyda thinsel ac addurniadau. Neu gallwch brynu bathodynnau newydd o siop ar -lein Achub y Plant o'r 7fed o Hydref ymlaen er mwyn trawsnewid eich siwmper, gyda 100% o'r elw yn mynd tuag at Achub y Plant.

Cyfrannwch i Achub y Plant. Drwy gael hwyl a chodi arian ar yr un pryd rydych yn sicrhau newid er gwell i fywydau plant yn y DU ac yn fyd eang.

Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer Diwrnod Siwmper Nadolig Achub y Plant, byddwch yn derbyn pecyn codi arian am ddim gyda chynlluniau gwersi, gweithgareddau Nadoligaidd a'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynllunio'r diwrnod. Bydd adnoddau Cymraeg yn cynnwys cwis, chwilair, patrymau creu byntin a gwybodaeth ar gyfer athrawon ar gael i'w llawrlwytho o'r wefan

Cofrestrwch yma - www.christmasjumperday.org